tafod elái

EBRILL 2023

Rhif 376

Pris £1

Eisteddfod Genedlaethol 2024

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r Cyfarfod Cyhoeddus ym Mhrifysgol De Cymru nos Iau, 16 Mawrth. Cynhaliwyd deg pwyllgor testun ac roedd dros ddeugain o bobl ar ôl yn y neuadd i drafod codi arian a chodi hwyl. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ar y rhestr testunau ar gyfer ein Steddfod ni wedi'i gwblhau. Mae ambell i beth i'w gadarnhau ac yna bydd y cystadlaethau'n ymddangos ar wefan yr Eisteddfod a bydd cyfle i bawb gynnig gwobrau.

Pe hoffech chi wirfoddoli, cofiwch ychwanegu eich enw at wefan yr Eisteddfod: Pwyllgorau Lleol 2024|Eisteddfod Genedlaethol.

Felly, y dasg nesaf yw dechrau o ddifrif ar y gwaith codi arian. Rydyn ni'n gwybod erbyn hyn mai £400,000 yw ein targed. Ceir uchod lun o'r siec gyntaf yn cael ei chyflwyno gan Joyce a Gwyn Morgan yn y lansiad yn Nhreorci. Codon nhw arian mewn digwyddiad Gŵyl Dewi.

Un peth rydyn ni'n awyddus iawn i'w wneud yw sgwrsio gyda gwahanol grwpiau am yr Eisteddfod. Dyna oedd y rheswm dros gynnal diwrnod i siaradwyr newydd yng Ngartholwg ddydd Sadwrn, 25 Mawrth. Daeth tua 100 o siaradwyr newydd ynghyd i ymarfer siarad Cymraeg ac i ddysgu am yr Eisteddfod. Diolch yn fawr iawn i'r prifeirdd Catrin Dafydd, Cyril Jones a Glenys Roberts am ddod â'u coronau, a diolch i'r tri sydd wedi cipio teitl Dysgwr y Flwyddyn – Gari Bevan, Joe Healey a Julie MacMillan – am ddod i ysbrydoli pawb. Helen Prosser

Enillydd Gwobr Cydnabyddiaeth Coleg y Cymoedd

Nia yn y canol, gyda'i mab Siôn a'i merch Mari

Llongyfarchiadau mawr i Nia Wyn Williams o Ben Maes Pentyrch sydd wedi ennill Gwobr i Weithiwr Neilltuol Coleg y Cymoedd. Gwobr sy'n cydnabod cydweithiwr sydd wedi dangos perfformiad a chyrhaeddiad rhagorol ym myd Cymorth Academaidd gan ddangos creadigrwydd, menter ac arloesedd.

Gyda bron 40 mlynedd o wasanaeth, mae cyfraniad ac ymrwymiad Nia i ddatblygiad y cwricwlwm a lles wedi bod yn amhrisiadwy. Mae hi'n ddiflino wrth geisio sicrhau cyflawniad dysgwyr ac i ddysgwyr gyflawni eu potensial llawn, yn aml yn rhoi o'i hamser ei hun i ddarparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar ei dysgwyr. Mae Nia wedi ymrwymo 100% i'w dysgwyr ac mae'n aelod allweddol o'r tîm creadigol, yn aml yn cymryd perchnogaeth dros gefnogi a mentora cydweithwyr newydd.

Er gwaethaf anawsterau personol diweddar, mae hi wedi gofalu am ei merch yn ystod ei thriniaeth canser dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cryfder cymeriad Nia, ei hagwedd at waith, a'i brwdfrydedd am fywyd wedi bod yn ddim mwy nag ysbrydoledig. Clod hollol haeddiannol!

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn
28 Ebrill 2023

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Cyfraniad

Diolch i bwyllgor papur bro y Gloran am eu cyfraniad hael i goffrau Tafod Elái.

CLWB Y DWRLYN

'Fy Nhrysor i . . .'

8yh Nos Iau, 6 Ebrill
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Manylion oddi wrth:
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru

CYLCH CADWGAN

Yr Athro Gareth Williams
'Angau yn y prynhawn'
8 o'r gloch Nos Wener
21 Ebrill 2023
Y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf
Mynediad: £3

Trefnwyr Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

Campfa Awyr Agored
Yn ystod y mis diwethaf agorodd campfa awyr agored ym Mharc Tyn-y-Bryn, lle cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd yn ôl ym 1991. Mae'n boblogaidd iawn gydag unigolion a grwpiau ac mae Ysgol Gymunedol Tonyrefail yn trefnu sesiynau ffitrwydd yna i'r disgyblion. Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Danny Grehan a'r tîm am sicrhau cyllid Ewropeaidd ar gyfer y prosiect hwn. Y cam nesaf wrth ddatlygu'r parc fydd adeiladu parc sglefrio.

Danny Grehan yn y gampfa awyr agored.

Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024
Os ydych chi am helpu i drefnu ambell i ddigwyddiad codi arian yn Nhonyrefail, rhowch wybod. Byddwn yn gwerthfawrogi pob un geiniog.



Neuadd Dewi Sant Caerdydd

Cwmni Theatr Maldwyn yn cyflwyno

Y Mab Darogan

Sadwrn 29 Ebrill 2023,
7:30pm

Wrth ddathlu 40 mlynedd ers sefydlu'r Cwmni, fe gawn weld y cynhyrchiad newydd hwn sy'n olrhain hanes gwrthryfel Owain Glyndwr, un o'n harwyr mwyaf fel cenedl.

PONTYPRIDD

Gohebu - Menna Lewis a Jayne Rees

Lansiad Llyfr
Cafwyd noson ddiddorol yn ddiweddar yn Amgueddfa Pontypridd wrth i Helen Prosser gyfweld a Sheldon Phillips awdur cyhoeddiad newydd 'No one remembers Pontypridd'. Mae 'r gyfrol yn un amserol iawn wrth i'r Brifwyl ymweld â Rh.C.T. yn 2024.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ym 1893 ac er ymchwilio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth does dim cofnod swyddogol yn bodoli h.y. ni chyhoeddwyd adroddiad swyddogol. Felly dyna esboniad o deitl llyfr Sheldon Phillips. Llwyddodd i gael gwybodaeth o bapurau newydd y cyfnod gan gynnwys un a brynodd ar Ebay gan werthwr o'r Almaen. (Mae Sheldon wedi cyflwyno'r papur yma i'r Amgueddfa. Cyhoeddodd y curadur newydd, Nigel Blackemore, y bydd yn rhan allweddol o'r arddangosfa i groesawu Eisteddfod Rh.C.T.)



Llwyddodd Pontypridd i sicrhau ei gais i gynnal yr eisteddfod ym 1893 gan guro Llanelli, Castell Nedd a Chicago!

Wrth gofio am ddatganiad diweddar yr Eisteddfod yn ganolog am feintiau'r ddau bafiliwn ym Moduan eleni fedrwch chi gredu roedd 20,000 yn gwrando ar rai o brif gystadlaethau ym mhafiliwn 1893! Gwariwyd miloedd o bunnau ar y pafiliwn o ddur a gwydr o Wlad Belg a osodwyd ym Mharc Ynysangharad. Rhwng rhai o'r cystadlaethau corawl roedd y gynulleidfa yn morio canu emynau'r cyfnod. Dyma'r Eisteddfod gyntaf i ddarparu cerddorfa i gyfeilio i'r corau.

Yn anffodus roedd yn rhaid i'r Eisteddfod ddelio â dyled ac fe gymerodd bum mlynedd cyn setlo!

Llyfr gwerth chweil i selogion y Genedlaethol sy'n dadlenni ffeithiau

Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Dewi

arbennig am ymweliad cyntaf y Brifwyl i'r dre ond yn sicr nid yr olaf!

Yn ystod y noson cafwyd adloniant gan Gôr Meibion Pontypridd. Yn ddiddorol gwaddol Steddfod 1893 oedd ffurfio'r Côr Meibion. Cyflwynodd Sheldon gopi o'i ymchwil ar sefydlu'r côr i'r arweinydd.

Mae'r gyfrol ar werth yn siop Storyville, Pontypridd am £12.99

Llongyfarchiadau
Pob dymuniad da i Aled Thomas, Lan Close sydd newydd ddathlu pen-blwydd nodedig. Fe wnaeth Aled gofnodi'r achlysur wrth fynd ar drip i Siapan.

Merched y Wawr
Ein gwestai arbennig ym mis Ebrill yw Beti George. Mae croeso i aelodau o ganghennau eraill ymuno â ni nos Iau, Ebrill 20ed yn Y Llofft yng Nghlwb y Bont am 7.30.

Dean Powell yr hanesydd o Lantrisant fydd yn dod atom ym Mai.
'Troedio Ponty'

Mae'r gangen yn croesawu'r Llywydd Cenedlaethol, Jill Lewis i ymuno â ni ac aelodau'r Rhanbarth fore Sadwrn Ebrill 22ain ar daith gerdded o gwmpas Pontypridd. Cwrdd ym maes parcio Sainsbury's am 10.30. (parcio am 3 awr) Byddwn yn diweddu'r daith gyda disgled yng Nghlwb y Bont.

Clwb Llyfre
Mwynhau darllen? Dewch i drafod yn y llyfrgell ym Mhontypridd fore Mercher Ebrill 26ain am 10.30. Ym mis Mai bydd y grŵp yn cwrdd fore Mercher 17eg.

Brysia Wella
Gwellhad buan i Siwan, merch Dave a Margaret Francis sydd wedi derbyn llawdriniaeth ym mis Mawrth. Mae'r teulu oll yn falch o'i chael nôl yn Llanharan.

Clod i'r Dref.
Enwyd Pontypridd yn un o wyth o drefi gorau y D.U. mewn cystadleuaeth o'r enw 'Let's celebrate towns' ddechre Mawrth.

Enillwyd gwobr o £20,000 mewn seremoni yn Llundain i'w wario yn y gymuned.

Ffarwelio â Capel Sardis

Roedd Prynhawn Sul 5ed Mawrth yn emosiynol i nifer ddaeth i'r gwasanaeth olaf yng Nghapel Annibynnwyr y Sardis, Pontypridd. Roedd cymaint o atgofion i'w trysori a hwyl yn cofio am yr ysgol Sul wythnosol. Roedd yn braf gweld ffrindiau wedi dod yn ôl ar gyfer yr achlysur.

Y Parchedig Allan Pickard fu'n cynnal gwasanaeth datgorffori Capel Sardis Prynhawn Sul 5ed Mawrth.

Morio Canu!
Yn wreiddiol o Rydyfelin a Beddau mae'r actor ifanc Jay Worley ar hyn o bryd yn difyrru teithwyr ar fordeithiau mewn cynhyrchiad o 'Jersey Boys'. Yn gyn-ddisgybl Rhydfelen aeth Jay ymlaen i raddio o'r Coleg Cerdd a Drama yn 2014. Buodd yn siarad ar 'Heno' yn ddiweddar ac roedd yn edrych ymlaen at y profiad o actio a chanu yn 'Jersey Boys' ar long Norweigian Cruise Line 'Bliss'

Fe fydd y golofn mis nesaf dan ofal Mike a Sian Ebbsworth.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Enfys, Celt a'r teulu ar golli mam Enfys yn ystod y mis.

Bu farw Marilyn Watkins gynt o Heol y Parc yn ddiweddar. Bregus fu iechyd Marilyn am flynyddoedd a threuliodd ei blynyddoedd olaf mewn Cartref Gofal yn yr ardal. Estynnwn ein cydymdeimlad i Rhian, ei merch, a'r teulu.

Brysiwch Wella
Dymunwn wellhad buan i Ioan Rees sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Fe gafodd Geraint Rees, brawd Ioan, driniaeth ddechrau mis Mawrth ac mae'n gwella'n arbennig o dda.

Dymuniadau gorau i Ann Rees, mam Ioan a Geraint a hithau wedi derbyn triniaeth ar ei llygad. Pob hwyl i chi eich tri, a gwellhad llwyr a buan i chi.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Cliff Hewitt, Penywaun sy'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Ebrill.

Diolch
Hoffwn ddiolch o galon i Gwilym, Beti, Cliff ac Eifiona am ddosbarthu Tafod Elái yn y pentref am ddeufis cynta'r flwyddyn tra roeddwn i'n cyflawni'n swydd fel "nyrs" yn ystod salwch Carey. Mae'r ddau ohonom yn ddiolchgar iawn am bob neges o gefnogaeth a chymorth a dderbyniwyd gennym.

Cerddor Ifanc
Llongyfarchiadau i Osian Gruffydd ar ennill gwobr Cerddor Ifanc y Flwyddyn yng Ngŵyl Cwlwm Celtaidd ym Mhorthcawl.

Y Tabernacl
Dathlu Gŵyl Dewi
Trefnwyd "Cawl a Chwis" i ddathlu gŵyl ein nawddsant yn Neuadd y Pentref, brynhawn Sul, Mawrth 5ed.

Rhaid diolch i bawb a ddaeth i gefnogi, ac roedd yn braf gweld y Neuadd yn llawn o bob oed yn cymdeithasu.

Mae torchau lliwgar wedi ymddangos ar hyd y pentref ers y cyntaf o Fawrth i ddathlu Gŵyl Dewi. Mae'n siŵr y dylem ni ddiolch i Eleri Mai ac aelodau Teulu Twm am drefnu'r wledd o gawl ac am addurno'r pentref â'r torchau.

Merched y Tabernacl
Dydd Gwener, 10fed o Fawrth, fe deithiodd nifer o'r aelodau i Gaerdydd i Amgueddfa Genedlaethol Cymru i fwynhau'r arddangosfa i ddathlu canmlwyddiant y BBC yng Nghymru. Ar ôl mwynhau paned yn y dderbynfa a chael sgwrs i roi'r byd yn ei le fe gawsom ein tywys i'r arddangosfa. Roedd yn hyfryd cael ein hatgoffa am rai o gyfresi'r Gorfforaeth. Orig fach bleserus i ail-fyw'r gorffennol. Ein cyfarfod nesaf fydd ymweld â Neuadd y Dref yn Llantrisant i gael ein croesawu gan Dean Powell a fydd yn cyflwyno hanes y Neuadd. Cysylltwch gydag Eifiona os ydych am ymuno â'r daith ar ddydd Mawrth Ebrill 18fed am 10.30 y bore.

"Bake-off" y Pasg yn y Tabernacl
Yn dilyn yr Oedfa fore Sul, Mawrth 26ain fe drefnwyd cystadleuaeth coginio teisen yn y Ganolfan. Roedd cyfle i gael paned a sgwrs tra bu'r beirniad, Eluned Davies Scott yn blasu a phenderfynu ar

yr enillwyr. Roedd yna dri dosbarth ac enillydd yr Adran Gynradd oedd Gwen Davies. Mari Roberts ddaeth i'r brig yn yr Adran Uwchradd ac enillydd yr Oedolion oedd Wendy Reynolds. Llongyfarchiadau gwresog i'r tair. Cafodd Pawb gyfle i flasu'r teisennau hyfryd cyn troi am adref. Diolch eto i Eleri Mai am drefnu'r gystadleuaeth.

Dewch i Ganu
Mae Elwyn Hughes yn dymuno cael côr bach ynghyd i ganu cân neu ddwy yn yr Oedfa fore Sul y Pasg, y nawfed o Ebrill. Cynhelir ymarferion byr ar ôl y gwasanaeth bob bore Sul.

Apêl y Pasg
Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am ddangos cefnogaeth i loches Cymorth i Ferched ac elusennau sydd yn helpu pobl ddigartref yn Rhondda Cynon Taf adeg y Pasg. Gwahoddir aelodau'r Tabernacl i gyfrannu Wyau Pasg ac amrywiaeth o ddanteithion. Bydd y Capel ar agor rhwng 10 o'r gloch a hanner dydd bob bore Iau a Sadwrn tan Ebrill 6ed. Bydd yn gyfle da i ddod ag ychydig o gysur a hapusrwydd i bobl sy'n wynebu cyfnodau anodd.

Un bore Sul cyhoeddodd John Llewelyn Thomas, ar ran y gweithgor, fod cymaint o alw wedi bod i gynorthwyo pobl ifanc wrth iddynt symud i'w cartrefi eu hunain nes bod cyflenwad Y Tabernacl o nwyddau angenrheidiol yn prinhau. Gwnaeth apêl felly am eitemau megis meicrodon, tostiwr, tegell, cyllyll a ffyrc - eitemau y mae gwir eu hangen ar y bobl ifanc yma i'w helpu i setlo yn eu cartrefi newydd.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Ebrill
Ebrill 2il Ann ac Emlyn Davies
Ebrill 9fed Y Parchedig Aled Edwards
Ebrill 16eg Allan James
Ebrill 23ain Y Parchedig Gethin Rhys
Ebrill 30ain Elwyn Hughes

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis : Allan James

Colli Brian Mills

Gyda chryn dristwch a sioc y clywyd am farwolaeth sydyn Brian Mills, Penygroes, Groesfaen yn ddiweddar.

Roedd Brian yn ŵr adnabyddus a phoblogaidd iawn ymhlith ei gyd-bentrefwyr yn y Groes-faen. Cyn ymddeol roedd Brian yn Rheolwr gyda chwmni Welsh Brewers ac hefyd yn hyfforddwr, rheolwr a llywydd gyda Chlwb Rygbi Llanharan.

Fe'i cofir fel cymwynaswr hael a chyson i sawl achos da yn y cylch.

Enillodd gapiau i Dîm Rygbi Ieuenctid Cymru ac hefyd bu'n chwarae i dîmau rygbi Cross Keys, Trecelyn, Casnewydd a Chaerdydd.

Daeth llu o gyfeillion a chydnabod ynghyd i'w angladd yng Nghapel y Wenallt, Amlosgfa Caerdydd (Thornhill) ar brynhawn Gwener Mawrth 17eg.

Talwyd teyrngedau hyfryd iddo gan ei ddau fab, Cennydd ac Owain.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i wraig Gail, Owain, Cennydd a'r holl deulu.

Merched y Wawr Tonysguboriau
Paned a sgwrs gyda Sue Hart

Cawsom awran fach gartrefol iawn yn ein cyfarfod diwethaf yn Cafe 50 Pontyclun. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Sue Hart am fod mor barod i ateb cwestiynau amdani ei hun gan y gweddill ohonom. Wel am fywyd diddorol o fod yn feddyg teulu i chwarae hoci iâ! O fethu siarad Cymraeg i fod yn hollol rugl heddiw. Arbennig Sue.

Diolch i Elaine ac Audrey am sicrhau bod paned a theisen ar gael.

Er cof am Beti Thomas



Bu farw Beti Thomas ym mis Chwefror ac fe gafodd ei theulu a ffrindiau gyfle i ffarwelio â hi mewn gwasanaeth o dan ofal y Parch Rosa Hunt yn Amlosgfa Llangrallo ar y 6ed of Fawrth. Roedd Beti yn un o'r aelodau cyntaf o gangen MYW Tonysguboriau, yn drysorydd y gangen am flynyddoedd ac yn aelod ffyddlon. Diolch i'w ffrind, Glynis Hunt am baratoi'r deyrnged ganlynol iddi ar ein rhan.

Ganwyd Beti Morris ar y 5ed o Fehefin 1935 yn Aberpennar, y trydydd blentyn a'r ifancaf yn y teulu. Cafodd ei haddysg yn ysgolion Aberpennar cyn mynd ymlaen i brifysgol Caerdydd a graddio mewn Hanes. Gwnaeth ei hyfforddiant dysgu yn Cheltenham ac wedyn daeth yn ôl i ardal Aberdâr i weithio yn y Coleg Addysg Bellach. Bu'n athrawes Saesneg yno trwy gydol ei gyrfa. Bu hi a'i gŵr, Colin Richards, yn byw yng Nghwmbach, Aberdâr.

Yn fuan ar ôl iddi hi ymddeol priododd Beti â Griff Thomas a buon nhw'n byw yn Nhonysguboriau. Erbyn hyn roedd David, mab Beti, wedi priodi a setlo yn ardal Chicago UDA a phlant Griff hefyd i gyd yn briod. Daeth wyrion yn fuan wedyn a chawson nhw lawer o bleser yn helpu gyda'r plant ifainc. Aeth Beti a Griff ar lawer o wyliau ar y cyfandir ac i'r Unol Daleithiau. Gan fod Griff yn Gymro Cymraeg, gwnaeth Beti'r ymdrech i ddysgu'r iaith trwy fynychu cyrsiau Basil Davies, Adrian Price a Heulwen Thomas.

Roedd Beti'n drist iawn ar ôl marwolaeth Griff yn 2001 ond gwnaeth ei gorau i fwynhau bywyd llawn. Roedd ganddi deulu a ffrindiau da. Cafodd lawer o bleser yng nghwmni'r plant a'r wyrion a mwynhaodd llawer o wyliau tramor, rhai gyda'i ffrindiau ym Malta ac ynysoedd y Canaries. Yn 2016 bu ym Mhatagonia gyda grŵp o dde Cymru a chael amser bendigedig yno.

Aeth i ymweld â'r teulu yn Chicago ddwywaith bob blwyddyn - dros y Nadolig ac yn yr haf.

Ymunodd â chapel Salem yn Nhonteg a buodd hi'n ddiacon yno am rai blynyddoedd. Roedd hi'n cadw cysylltiad gyda'i ffrindiau o'r coleg yn Aberdâr a gyda'i ffrindiau o'r dosbarth Cymraeg ac yn mwynhau cyfarfod â nhw yn aml am bryd o fwyd. Hoffai fynychu operâu yng Nghaerdydd, dramâu a sioeau cerdd yn y Parc a'r Dâr yn Nhreorci. Roedd hefyd yn cefnogi'r corau lleol.

Roedd Beti yn fenyw hapus, haelionus a chyfeillgar. Mae ei marwolaeth yn golled fawr i'w theulu a'i holl ffrindiau.

COLLI TIR

Dod ar draws cyfrol yn dwyn y teitl 'Landmarks' (2015) gan Robert Macfarlane a ysgogodd y sylwadau canlynol. Rydym yn ddigon cyfarwydd bellach â chlywed am ddadleuon amlwg o arswydus ynglŷn â gwarchod yr amgylchedd yn wyneb newidiadau hinsawdd. Pwyslais braidd yn wahanol sydd wedi denu sylw Macfarlane. Bu gwahanol feirdd a llenorion ar wahanol adegau yn ymateb i'w cynefin gan bwysleisio pwysiced yw'r elfennau hynny a fu'n rhan o'u magwraeth a chan ddathlu yr un pryd, ogoniant byd natur.

Arswydo y mae Macfarlane fod y sefyllfa'n newid a bod cyfoeth y byd naturiol yn fyd estron i gynifer o'r genhedlaeth gyfoes. Ei fan cychwyn oedd cael ei gyflwyno i gyfres o eiriau yn ymwneud â'r amgylchedd a'r tirlun, cyfres o dermau a gysylltid ag Ynysoedd Heledd ac yn benodol ag Ynys Lewis: 'The word-lists of Landmarks have their origin in one such trove, turned up on the moors of the Outer Hebridean island of Lewis in 2007'. Cyfeirir at y llawysgrif fel 'Peat Glossary : a list of the hundreds of Gaelic terms for the moorland that stretches over much of Lewis's interior'. Ei bwynt oedd y byddai cynifer o'r geiriau wedi diflannu am byth oni bai am ymdrechion y casglwyr hynny a fu'n cywain yn ofalus yr holl dermau 'through archival research and oral history'. Yr hyn a ysgogodd ymchwil bellach ganddo oedd ei gred fod yr un ffenomen i'w gweld ar waith mewn cymunedau a rhanbarthau ledled Prydain: 'It was my guess that other tongues in these islands also possessed wealths of words for features of place - words that together constituted a vast vanished , or vanishing language for landscape'.

O ganlyniad, roedd angen edrych ar y sefyllfa mewn cyd-destun llawer ehangach ac ystyried natur yr eirfa a oedd yn bodoli ledled y wlad wrth drin a thrafod elfennau'r byd naturiol o'n cwmpas. Oedd y dirywiad yn rhywbeth cenedlaethol? Cafodd ateb hynod bendant i'w ofnau a hynny mewn modd annisgwyl o ddramatig wrth iddo holi Gwasg Prifysgol Rhydychen ynglŷn â newidiadau a ganfu yn yr argraffiad newydd o'r 'Oxford Junior Dictionary' a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn â'r 'Peat Glossary'. 'A sharp-eyed reader noticed', meddai, 'that there had been a culling of words concerning nature'. Yna deuir at y dystiolaeth a oedd yn cynnal ei ddadl ac yn peri cryn arswyd i ymchwilwyr a thrigolion a fyddai'n gweld gwerth mewn diogelu'r eirfa honno a oedd yn rhan o'u hetifeddiaeth ieithyddol, termau penodol a fyddai'n caniatáu iddynt ymateb i nodweddion topograffig eu milltir sgwâr drwy arfer a dathlu geirfa draddodiadol eu cyndeidiau.

Daethai tro ar fyd a her amlwg i'r sawl a fynnai ddiogelu holl gyfoeth ieithyddol llafar gwlad. Wedi pwyso ar Wasg Prifysgol Rhydychen cafwyd ymateb yn y pen draw a rhestr 'of the entries it no longer felt to be relevant to a modern-day childhood', rhestr a oedd yn sail i holl ofnau Macfarlane a'i debyg. 'The deletions included acorn, adder, ash, beech, bluebell. buttercup, catkin, conker, cowslip, cygnet, dandelion, fern, hazel, heather, heron, ivy, kingfisher, lark, mistletoe, nectar, newt, otter, pasture and wiilow.' Pan heriwyd pennaeth geiriaduron plant y Wasg, atebwyd 'that the dictionary needed to reflect the consensus experience of modern-day childhood'.

Parhad tudalen 7 >

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi'r Prifardd Hywel Griffiths sy newydd gyhoeddi ei gasgliad, *Y Traeth o dan y Stryd*.

Beth yw eich gwaith?
Darllenydd mewn daearyddiaeth ffisegol yn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth. Mae'n swydd amrywiol sy'n golygu dysgu a goruchwylio myfyrwyr, ymchwilio (gan gynnwys gwneud tipyn o waith maes) a gweinyddu.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?
Braidd dim! Pan oeddwn i'n fyfyriwr fe weithiais i'r cwmni lle oedd fy modryb yn gweithio, BOCM Pauls yng Nghaerfyrddin. Cwmni cynhyrchu bwyd anifeiliaid fferm oedd hwn ac roeddwn i'n ateb y ffôn a chymryd archebion ffermwyr. Roedd yn lot o hwyl.

Hefyd roeddwn i'n helpu teulu fy mam gyda gwaith ffarm ac, o edrych nôl, mae'r cyfnod o fod mas yn yr awyr agored yn rheolaidd wedi bod yn ddylanwad mawr.

O ble rydych chi'n dod?
Yn wreiddiol o Langynog, Sir Gâr, hanner ffordd rhwng Caerfyrddin a San Clêr.

Ble rydych chi'n byw?
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?
Do, yn fawr iawn, roeddwn i wrth fy modd. Ysgol fach, bentrefol oedd Ysgol Llangynog, yn rhan bwysig o'r gymuned, ac roedden ni'n cael llwyth o gyfleon gwych o ran chwaraeon, perfformio a theithiau i lefydd diddorol.

Dwi'n meddwl mai'r unig bwnc na wnes i fwynhau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin oedd cerddoriaeth – am nad oedd gen i unrhyw ddawn gerddorol siŵr o fod! Fel arall, roeddwn i wrth fy modd yn dysgu, ac oherwydd bod cof da gyda fi, roeddwn i'n gallu gwneud yn dda mewn arholiadau, oedd yn help mawr ar y pryd.

Roedd astudio yn Aber yn wych am amryw o resymau! Dwi'n dal i gael addysg bob dydd – mae'n un o agweddau braf y swydd.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?
Yn naturiol, y bobol o'ch cwmpas chi sy'n dylanwadu fwyaf a dwi wedi bod yn lwcus yn hynny o beth. Fe ges i fy magu mor agos at fy nheulu (ochor Mam ryw bum munud i ffwrdd yn y car, ac ochor Dad ryw ugain munud) a bues i'n lwcus i gael treulio cymaint o amser yng nghwmni fy ewythrod a fy modryb yn ogystal â Mam a Dad a 'mrawd, wrth gwrs. Roedd Mam yn help mawr i fi drwy gydol fy addysg a Dad yn mynd â fi i lawer o gemau pêl-droed yn Sir Benfro.

Ers dechrau llenydda mae Eurig Salisbury wedi bod yn ddylanwad arna' i a dwi wedi bod yn lwcus o fy nghydweithwyr yn y brifysgol o ran dysgu am agweddau gwahanol y swydd. Mae'n siŵr mai Alaw, y wraig, a Lleucu a Morgan yw'r dylanwadau mwyaf nawr!

Pa gyfrolau eraill ydych chi wedi cyhoeddi?
Rwy wedi cyhoeddi tair cyfrol arall o farddoniaeth, *Banerog*, *Teigr yn y Gegin* a *Llif Coch Awst*, a dwy nofel i blant, *Dirgelwch y Bont* a *Haciwr*. Yn ddiweddar, fe gyhoeddais i *Yr Afon a'r Graig: Ceubyllau Afonydd Cymru* gyda Dewi Roberts a Stephen Tooth.

O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r gyfrol? Faint o her oedd ei sgrifennu hi?
Dwi'n ddiolchgar i Barddas am holi a fuasai diddordeb gen i gyhoeddi cyfrol. Mae llawer o gerddi'r gyfrol yn rhai dwi wedi eu hysgrifennu dros y chwe blynedd ddiwethaf. Felly doedd hi ddim yn her ofnadwy i'w casglu nhw ynghyd ond roedd hi'n dda cael sbardun i sgrifennu cerddi newydd.

Beth yw arwyddocâd y teitl?
Rwy'n ffan mawr o'r Manic Street Preachers ers eu clywed gynta yn fy arddegau. Un o'r pethau gwych am y Manics yw bod rhywun yn dysgu am ddiwylliant a chelfyddyd a gwleidyddiaeth drwy eu caneuon nhw. Trwyddyn nhw y clywais i am fudiad y Sefyllfawyr neu'r Situationists a gwrthryfel y chwedegau ym Mharis yn enwedig, a chlywed y slogan a baentiwyd ar waliau'r ddinas – '*Sous les pavés, la plage*' (O dan gerrig y pafin, y traeth) – a'r syniad o ymryddhau o strwythurau caeth bywyd modern a dod o hyd i rywbeth gwell.

Mae hefyd yn arwyddocaol am resymau eraill, rhai o'r cerddi'n sôn am y traeth yn Aberystwyth ac am ymwneud pobl â'r amgylchedd.

Beth sy'n gwneud cerdd dda?
Mae cerddi gwahanol yn dda am wahanol resymau dwi'n meddwl. Felly mae'n gwestiwn anodd ei ateb. Mae cerdd dda yn gwneud ichi feddwl, yn cyffwrdd rhyw deimlad cyfarwydd (er bod y thema o bosib yn anghyfarwydd) ac yn aros gyda chi.

Sut mae cerdd yn dechrau?
Yn aml, mae'n dechrau gyda chais neu wahoddiad neu gomisiwn ond, fel arfer, mae rhyw syniad am gerdd yn dod o rywle hefyd. Yn aml, mae'r syniad cychwynnol yn dod wrth gerdded. Dwi wedi darganfod bod symud yn helpu i droi'r syniad cyntaf yn y meddwl.

Sut mae cerdd yn datblygu?
Wedi i'r syniad gyrraedd, mae geiriau, darnau o linellau, trawiadau cynganeddol neu linellau cyfan yn dod i'r meddwl ac mae'n fater wedyn o bwytho'r syniadau at ei gilydd. Anaml iawn y bydda i'n sgrifennu cerdd o'r dechrau i'r diwedd. Mae'n debycach i jig-so. Wn i ddim a yw hynny'n beth da ond dyna sut dwi'n gweithio.

Beth sy'n well 'da chi, y wers rydd neu'r gynghanedd? Ydyn nhw'n gweddu i gerddi arbennig?
Rwy'n hoff iawn o'r ddwy ond fe fydda i'n troi at y gynghanedd yn gynta fel arfer. Os ydw i'n sgrifennu'n rhydd, rwy'n cael fy nhynnu'n amal at rythm y soned, felly mae'r cerddi yn y wers rydd sydd gen i yn weddol brin. Mae cael ffrâm mesur yn hwyluso'r broses i fi ond rwy'n mwynhau sgrifennu cerddi rhydd pan maen nhw'n dod.

Ar wahân i'r ffaith fod cerddi caeth yn gweddu i fathau arbennig o gerddi yn y traddodiad barddol – cerddi cyfarch, marwnadau ac ati – a'r englyn yn gweddu'n arbennig os ydych yn trio dal syniad mewn cerdd fer, fachog, dwi'n tueddu i ddilyn greddf a pheidio meddwl a yw mesur yn gweddu neu beidio.

Beth oedd proses cynllunio'r casgliad? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya?
Edrych yn ôl trwy'r cerddi wedi eu hysgrifennu dros y blynyddoedd diwethaf a phenderfynu pa rai i'w cynnwys. Ysgrifennu'r cerddi oedd wedi bod yn troi yn y meddwl am sawl blwyddyn ond a oedd yn dal yn ddim ond ambell linell neu syniad. Penderfynu ar drefn y cerddi. Dangos y gyfrol i Alaw Mai Edwards (cyn olygydd *Barddas*), Alaw (fy ngwraig), Ceri Wyn (y golygydd) a Huw Meirion Edwards (golygydd y Cyngor Llyfrau).

Ysgrifennu'r cerddi newydd a oedd wedi bod ar y gweill ers tro oedd y mwynhad mwya a mynd i'r afael â'r sylwadau golygyddol oedd yr her fwyaf (dim bod dim byd yn rhy heriol, dim ond bod y broses angen gofal a chanolbwyntio).

Oes gennych chi rwtîn sgrifennu?
Nac oes, dyw bywyd ddim yn caniatáu hynny ar hyn o bryd. Yr unig 'rwtîn' sydd gen i yw 'mod i'n cyfansoddi wrth gerdded y ci, fel arfer yn hwyr y nos, ond dyw hyn ddim yn ddigon rheolaidd i'w alw'n rwtîn.

Beth yw eich barn am stad barddoniaeth Gymraeg?
Mae stad barddoniaeth Gymraeg yn iach iawn dwi'n meddwl. Mae amrywiaeth ehangach nac erioed o bobol yn barddoni ar amrywiaeth eang o bynciau wrth ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys cyfrolau, cylchgronau, nosweithiau, podlediadau, cyfryngau

Parhad tudalen 7 >

O DAN YR WYNEB
Parhad

cymdeithasol. Mae barddoniaeth yn cael sylw drwy gynlluniau fel Bardd y Mis BBC Radio Cymru a Barddas, ac mae galw mawr o hyd am gerddi comisiwn gan unigolion a sefydliadau. Byddai'n dda cael mwy o drafod beirniadol am farddoniaeth, ond o ran y creu, mae'n iach iawn.

Pwy yw eich hoff fardd? Pam?
Alla i ddim dewis un ond dwi'n dychwelyd dro ar ôl tro at Dic Jones, Gerallt Lloyd Owen, Alan Llwyd a Niclas y Glais. Maen nhw'n apelio at wahanol agweddau ar fy mhersonoliaeth i, fy niddordebau a fy chwaeth farddonol.

Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i fardd ifanc?
Cymerwch fantais o gyfleon sy'n dod ichi. Er gwell neu er gwaeth, dwi ddim yn gwrthod rhyw lawer o gynigion ac mae cymryd rhan mewn pethau yn arwain at bethau eraill ac mi ydych chi'n cwrdd â phobl a gweld llefydd newydd a chael eich ysbrydoli.

Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?
Dyw e ddim yn gyngor fel y cyfryw ond dywedodd fy hen gyfarwyddwr PhD 'mod i'n amlwg yn mynd yn *bored* yn gyflym' a dwi'n meddwl ei fod wedi fy neall i i'r dim. Dwi'n gorfod gweithio'n galed i orffen prosiect cyn diflasu a symud at y nesa.

Chi wedi dweud eich bod o blaid creu cysylltiadau rhwng y gwyddorau a'r celfyddydau? Sut?
Trwy gydweithio ar brosiectau lle gall gwyddonwyr ddysgu oddi wrth ffyrdd o feddwl a ffyrdd o gyfathrebu artistiaid, a lle gall artistiaid gael budd drwy ddysgu am ffyrdd o feddwl, dulliau a darganfyddiadau gwyddonwyr. Y prif ddiddordeb sydd gen i yw sut mae modd cyfathrebu canfyddiadau gwyddonol yn gelfyddydol e.e. trwy gelf weledol neu farddoniaeth.

Beth sy'n eich gwylltio?
Digartrefedd. Dwi'n meddwl mai dyma sgandal fwyaf ein cyfnod ni a'r arwydd amlycaf o ddiffyg moesol y system yr ydym yn byw ynddi.

Beth sy ar y gweill?
Dim byd mawr ar hyn o bryd. Mae nofel wedi bod ar y gweill ers sawl blwyddyn ond dwi ddim yn gallu cael hyd i'r rwtîn disgybledig sydd ei angen ar gyfer ei datblygu.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd
Brecwast llawn, bacwn, selsig, wy wedi ffrio, madarch, ffa pob, tomato, tost, bara wedi ffrio, hash brown. Latte. Dwi'n ymatal rhagddo gymaint ag y medraf!

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?
Rhedeg, gwylio ffilmiau, gwrando ar gerddoriaeth, darllen nofelau.

PENTYRCH
Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Arian Parod
Mae nifer o straeon wedi bod yn y cyfryngau yn ddiweddar am bobl ag anableddau yn methu talu am nwyddau neu wasanaethau gydag arian parod. Golyga hyn eu bod yn cael eu hamddifadu o'r un hawliau â phawb arall. Mae hyn yn berthnasol efallai i eraill (megis yr henoed neu rheiny sy'n derbyn budd-daliadau) nad sy'n berchen ar garden, neu sydd hyd yn oed ddim eisiau talu am bethau gyda charden.

Mae Mencap Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod modd defnyddio arian parod i dalu am nwyddau a gwasanaethau i bawb. Os ydych yn cytuno efallai byddech yn fodlon arwyddo'r ddeiseb yma a'i rhannu gyda ffrindiau neu berthnasau: https://petitions.senedd.wales/petitions/245384

Mae'r ddeiseb ar agor tan Mai 15.

Pen-blwydd Hapus
Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Dewi Hughes wedi iddo ddathlu pen-blwydd arbennig ar ddiwedd mis Mawrth.

Genedigaeth

Mae'n gyfnod hapus a phrysur i Joy ac Eifion Glyn wrth iddynt groesawu wyres ac ŵyr newydd i'r teulu. Ganwyd Lena Morgan i Anna ac Owain ar Chwefror 19, chwaer fach i Deio a Nico yn Nhreganna.

Bachgen bach gafodd Ifan a Rosanna ar Fawrth 17 – Iestyn Teifi Glyn – brawd bach i Besi Ann a Morus Ifan yng Ngwaelod y Garth.

Croeso mawr i Lena ac Iestyn a phob dymuniad da iddynt i gyd.

Llwyddiant Tenis
Llongyfarchiadau i Nel Rogers, Maes y Sarn ar ei llwyddiant yn y byd tenis. Mae Nel yn nosbarth 4 Ysgol Creigiau ac mae newydd gynrychioli De Cymru mewn cystadleuaeth Tenis yn erbyn Gwlad yr Haf yn Ysgol Millfield. Wedi bod yn hyfforddi gyda charfan datblygu De Cymru, hon oedd ei gêm gyntaf a chwaraeodd yn wych. Da iawn Nel a dymunwn yn dda i ti yn y dyfodol.

Menter Newydd
Wedi ffarwelio â siop Cwtsh dymunwn yn dda i Berian Davies a Gwyn Jones wrth iddynt symud eu hasiantaeth dai Move2here i'r adeilad ar sgwâr y pentre. Pob lwc iddynt ar y fenter.

Clwb y Dwrlyn
Nic Pari oedd y gŵr gwadd yng Nghinio Gŵyl Dewi Clwb y Dwrlyn yng Nghlwb Golff Radyr dydd Sul Mai 5ed. Wedi'r wledd cafwyd awr ddiddorol o straeon o'i waith fel cyfreithiwr ac yn y Llys Barn, ac o'i brofiadau yn sylwebydd Reslo a Phêl Droed.

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN
Parhad o dudalen 5

Y ddadl oedd bod plant ar un adeg yn gweld y tymhorau ond bod eu hymateb i'r amgylchfyd wedi newid. Wrth reswm, nid oedd yr ateb wrth fodd yr awdur wrth iddi gyfeirio at 'an alarming acceptance of the idea that children might no longer see the seasons, or that the rural environment might be so unproblematically disposable'.

Os yw'r 'mynyddoedd mawr' yn aros, ymddengys fod rhaid derbyn mai 'bugeiliaid newydd sydd ar yr hen fynyddoedd hyn'. Mae ymateb Macfarlane yn eglur a digyfaddawd wrth iddo orfod derbyn bod plant yn 'adept ecologists of the technoscope'. Ac eto rhaid cydnabod bod yna bris i'w dalu : 'And what is lost along with this literacy is something precious : a kind of word magic, the power that certain terms possess to enchant our relations with nature and place'. Mae'r gyfrol 'Landmarks', felly, yn gyfrwng dathlu cyfoeth ieithyddol y gorffennol ond ar yr un pryd yn cynnig rhybudd fod rhaid diogelu'r etifeddiaeth honno yn wyneb newidiadau cymdeithasol hynod chwyldroadol.

Yr her i bawb, felly, fydd gwerthfawrogi prydferthwch Clychau'r Gog eleni eto, cydnabod 'yr hen lesmeiriol baent', ys dywed R. Williams Parry, a mwynhau'r 'atgofus bersawr'. Pan ddiflannant gyda'r gwcw, rhaid troi at 'rin y gwyddfid' a 'mynych glych yr eos' gan gofio her Macfarlane nid yn unig i gydnabod elfennau'r byd naturiol, ond i arddel pob term a'i drosglwyddo i'r genhedlaeth newydd.

Allan James

***Y Traeth o dan y Stryd*, Cyhoeddiadau Barddas, £8.95**
Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781911584643&tsid=2

Merched y Wawr Cangen y Garth

Mis Chwefror

Cyfarfod arbennig iawn oedd hwn - sef Dod i Adnabod Aelod - a'r Aelod? Wel, neb llai na Eirian Hughes! Ac am stori ddifyr! Mae Eirian yn aelod cymharol newydd - wedi symud gyda'i gŵr, Elwyn, haf llynedd o Lanfairpwll i Bentre'r Eglwys er mwyn bod yn nes at y chwe ŵyr bach. Da iawn Taid a Nain! Nid yw'r ardal hon yn ddieithr i Eirian ac Elwyn - ac nid ydynt hwy ill dau yn ddieithr i lawer ohonom ni - yn aelodau Côr Godre'r Garth a Chapel y Tabernacl, Efail Isaf, a'r byd Cymraeg yn gyffredinol.

Cafodd Eirian ei magu ym Mhenmaenmawr a Llangefni. Wedi gadael yr ysgol yn 17 oed aeth i weithio i'r Cyngor Sir. Ond y stori fydd gyda fi am byth - eu rhieni yn gollwng yr efeilliaid - Eirian ac Eleri ar Newport Road yn arddegwyr ifanc - a'u gadael yno i aros yn yr YMCA i gychwyn ar fywyd newydd! Cafodd waith yn Adran Newyddion y BBC i ddechrau, yna'r Adran Blant ac yn ddiweddarach yn yr Adran Adloniant. Amser cyffrous i fod yn gweithio yn y cyfryngau! Bu'n Gynorthwy-ydd Cynhyrchu cyn symud ymlaen i weithio ar ei liwt ei hun. Yn y cyfamser priododd Elwyn, cafodd blant a

symudodd y teulu nôl i'r gogledd! Dechreuodd weithio fel Tiwtor Technoleg Gwybodaeth ym Mhrifysgol Bangor. Pwy tybed sy'n cofio'r ECDL? Yr European Computer Driving Licence? O! Ie! Gwaith Eirian oedd hyfforddi is-raddedigion yn y maes yma. Dyna'i byd gwaith!

Cychwynnodd pennod newydd yn ei bywyd pan brynodd beiriant gwnïo go sbesial! Peiriant fyddai'n caniatáu iddi greu bagiau lledr hyfryd! A hithau wedi bod yn gwnïo dillad ers blynyddoedd - ac yn mynychu cyrsiau Megan Williams yn Nhanybwlch bob blwyddyn - dechreuodd greu brodwaith cain, dillad plant bach wedi'u personoli, lluniau cain ar sidan, cymaint o bethau cywrain. Daeth â llawer o eitemau hardd o'i gwaith i ni gael eu mwynhau y p'nawn hwnnw yng Nghlwb Rygbi Pentyrch! Diolch Eirian am gael dod i'th adnabod yn well! Bellach mae ganddi wefan lle gellwch weld a phrynu ei gwaith - www.lliwiaurenfys.cymru

Mis Mawrth

Datblygodd y cyfarfod hwn yn bach o Frethyn Cartre! A diolch am Ferched galluog, byrlymus y Gangen! Methodd Lowri ddod atom oherwydd anaf a salwch. Lowri druan! Brysia wella a gobeithio y cawn fwynhau dy gwmni yn y dyfodol. Digon o siarad serch hynny! Digon o gwmnia, yfed te/coffi a bwyta cacs! Tan tro nesa! Cadwch yn saff a Phasg hapus!



Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

Dathlu’r Pasg

Erbyn i'r erthygl hon gael ei chyhoeddi bydd y rhan fwyaf ohonom wedi prynu rhyw eitem neu fwyd sydd wedi ei farchnata'n arbennig ar gyfer dathlu’r Pasg. Er bod costau byw yn parhau i godi, amcangyfrifir bod bron i ddwy ran o dair ohonom yn bwriadu gwario arian yn benodol ar brynu bwydydd i ddathlu’r Pasg eleni, gan roi cyfanswm o £892 miliwn ar bethau fel anrhegion a siocledi. Gyda chwmnïau mawr yn cystadlu â'i gilydd i’n perswadio i wario ein harian yn eu siopau nid yw'n syndod eu bod yn rhoi cymaint o amser ac ymdrech i ddatblygu ac addasu bwydydd yn flynyddol i lenwi eu silffoedd â danteithion tymhorol.

Ond yn ôl Dr Annie Gray, sy’n arbenigwr ar hanes bwyd a chiniawa ym Mhrydain, nid yw dewisiadau bwyd presennol y Pasg mor fawreddog ac amrywiol â'r rhai a welwyd yn y gorffennol pan oedd dathliadau’r Pasg yn fwy na’r rhai adeg y Nadolig.

Gyda diwedd y Grawys, roedd gwledd y Pasg yn canolbwyntio ar gig. Gydag ŵyn cyntaf y tymor yn barod a’r symbolaeth ychwanegol bod Iesu’n cael ei alw’n ‘Oen Duw’, cig oen oedd y prif ddewis ar draws Ewrop. Roedd geifr hefyd yn boblogaidd yn ne Ewrop.

Yn cael eu gweld fel symbol o ffrwythlondeb, ailenedigaeth a chyfoeth daeth wyau hefyd yn rhan o wledd y Pasg. Roedd wyau wedi'u paentio yn arbennig o boblogaidd yn yr Almaen, ac erbyn y 18fed ganrif roeddent yn gysylltiedig â'r *Osterhase* (ysgyfarnog y Pasg) a fyddai'n dod â nhw fel anrhegion i blant da. Yn ystod y 18fed ganrif hefyd dechreuodd pobl roi wyau Papier-mâché wedi'u llenwi ag anrhegion bach yn lle'r wyau wedi'u paentio. Dyfeisiwyd siocled llaeth yn y Swistir yn y 19eg ganrif gan arwain at y traddodiad o’r wyau siocled. Yn 1873 pan ymunodd JS Fry & Son â Cadbury y lansiwyd yr wy Pasg fel y gwyddom amdano heddiw. Eleni gallwch ddewis wy Pasg Toblerone am y tro cyntaf neu wyau Pasg wedi eu blasu gyda darnau o fafon, candi, marshmallows, tiramisu, pwdin taffi gludiog, ganache piwrî banana, oren gwaed, wedi eu dylunio i edrych fel marmor neu yn hollol seiliedig ar blanhigion gan ddefnyddio piwrî afocado ac olew cnau coco. Mae’r dewis yn helaeth!

Mae bara a chacennau cyfoethog hefyd yn cael eu cysylltu â'r Pasg. Rhoddodd yr *Osterhase* hefyd ei enw i fara Almaeneg wedi'i bobi ar siâp ysgyfarnog. Yn Rwsia, disodlodd torth ffrwythau uchel o'r enw *kulich* bara cyffredin ar gyfer yr Wythnos Sanctaidd. Mae'r *tsoureki* Groegaidd yn cael ei wneud o does arddull *brioche*. Yn yr Eidal mae *panettone* siâp colomen, y *Colomba Pasquale*, yn dyddio'n ôl rai cannoedd o flynyddoedd. Y rheswm am siâp colomen, yn ôl y stori, yw bod pobydd wedi cynnig bara siâp colomen i Frenin cynddeiriog yn 572C.C. i’w dawelu, gan egluro bod ei deyrnged yn symbol o heddwch. Roedd y bara yn arogli ac yn blasu cystal, nes i'r brenin Alboino wneud addewid o heddwch.

Mae cacen sbwng traddodiadol o Alsace wedi'i siapio fel oen a’i thaenu â siwgr eisin i greu gorffeniad blewog. Genedigaeth lloi cyntaf y flwyddyn sy’n cael ei ddathlu yn y Ffindir trwy bobi cacen â blas ffrwythau, cnau, cardamom a lemwn mewn padell odro.

Beth yw’r cyfieithiad cywir am ‘Hot Cross Buns’? Dwi wedi dod ar draws Bynsen y Grog, Teisen y Groglith, Teisen Groes a Byns Croes Poeth. Mae ei hanes yn mynd yn ôl cyn belled â'r 12fed ganrif. Yn ôl y stori, roedd mynach Anglicanaidd yn pobi byns a'u marcio â chroes fel anrhydedd i Ddydd Gwener y Groglith. Dros amser fe ddaethant yn fwy poblogaidd, ac yn symbol o benwythnos y Pasg. Yn 1592 rhoddodd y Frenhines Elizabeth ganiatâd i bobwyr bara yn Lloegr i baratoi byns sbeislyd ond dim ond ar gyfnodau claddedigaethau, ar Ddydd Gwener y Pasg a’r Nadolig. Torth sy’n esblygiad o'r fynsen groes boeth yw’r Fynsen Pasg Jamaicaidd sy’n cynnwys triog a sbeisys. Roedd yn cael ei weini'n draddodiadol â darnau trwchus o gaws wedi'i brosesu.

Erbyn hyn mae’r fynsen ostyngedig wedi ei dyrchafu i uchelfannau newydd yn ein siopau gyda dewis o flasau newydd fel lemwn a siocled, banoffee, llus a cardamom, siocled a chaws hufennog ar gael i’n temtio eleni. Os am roi tro ar fersiynau sawrus gallwch ddewis caws a thomato wedi’u sychu yn yr haul, caws a phupur, tsili neu ‘stout’. Mae’r archfarchnad sy’n cynnig blas caws a ‘stout’ yn awgrymu ei gweini wedi'u llenwi â chig moch trwchus, wy wedi'i botsio a *hollandaise*; byddai hyn yn darparu digon o galorïau ar gyfer mwy na thaith gerdded gyflym!

Y bwyd melys poblogaidd arall yw'r gacen simnel. Daw'r gair simnel o'r Lladin *simila*, sy'n golygu blawd gwenith wedi'i falu'n fân. Dywed Emma Heslewood, sy’n ysgrifennu blog The Cake Historian, fod sawl fersiwn o’r gacen oherwydd mai bara ffrwythau toes oedd rhagflaenwyr y gacen oedd yn cael eu gweini mor bell yn ôl â’r 11eg ganrif. Dechreuodd pob cacen fel torthau melys gan esblygu’n gacennau gweadog pan ddaeth siwgr ar gael yn rhwydd ac yn rhad o'r planhigfeydd. Cyn hynny defnyddiwyd ychydig o fêl neu ffrwythau am felyster. Mae Dr Annie Gray yn credu bod llawer o’r symbolaeth o amgylch cacen simnel yn fytholeg, gan ei olrhain yn ôl i’r Fictoriaid. Cysylltwyd y gacen yn wreiddiol â'r diwrnod y byddai pobl yn gwneud pererindod i'w 'mam' eglwys. Yn cael ei adnabod fel 'Sul y Mamau' yn wreiddiol nid oes dim i'w wneud â mamau o gwbl.

Beth bynnag rydych chi'n dewis ei goginio a'i fwyta'r Pasg hwn, beth am roi cynnig ar rywbeth gwahanol hefyd am newid? Rwy'n mwynhau coginio gafr ac os fyddwn gartref dros y Pasg baswn yn rhoi cynnig ar rysáit Jamie Oliver ar gyfer Ragu sy’n defnyddio coes myn gafr. Cwmni Moat Goat yn Sir Benfro gafwyd sylw ar raglen ‘The Hairy Bikers’ yn ddiweddar fyddai fy newis o gyflenwr.

Ysgol Garth Olwg

Ar ein ffordd i Ynysoedd y Balearig
Llongyfarchiadau mawr iawn i Lauren Knight, Ava Martin Thomas a Seren Kyte am ennill cystadleuaeth ECCA This is my language. Maent wedi ennill y fraint o gynrychioli Cymru yng nghampws iaith ECCA yn Ynysoedd y Balearig. Roedd angen iddyn nhw hybu'r Gymraeg a denu ymwelwyr i Gymru ar unrhyw ffurf. Creodd Lauren gerdd a gwnaeth Seren ac Ava fideo yn cyd-fynd gyda'r gerdd. Byddant yn cystadlu yn erbyn 7 gwlad arall sydd ag ieithoedd lleiafrifol ym mis Mai.

Perfformiadau Mewn Cymeriad
Cafodd ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen wledd un bore pan ddaeth Arglwyddes Llanofer i ddysgu'r plant am hanes y wisg Gymreig. Cafodd flynyddoedd 3 – 6 hefyd gyfle i weld perfformiad difyr iawn am hanes Dic Penderyn. Roedd y plant wrth eu boddau ac wedi dysgu llawer. Bara neu waed!

Sioe Martyn Geraint
Roedd y dosbarth Meithrin a Derbyn yn gyffrous iawn un bore pan groesawyd Martyn Geraint yn ôl i'r ysgol unwaith eto. Cawsom lawer o hwyl a sbri yn ei gwmni yn canu a dawnsio i ganeuon newydd yn ogystal â llawer o'i hen ffefrynnau. Gadawodd bob plentyn y neuadd gyda gwên ar eu hwynebau.

Diolch o galon Martyn!

Cwis Llyfrau
Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm cwis llyfrau am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth. Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch.

Dydd Miwsig Cymru
Roedd Garth Olwg yn fôr o ganu a cherddoriaeth i'w chlywed ledled yr ysgol wrth i ni ddathlu'r cyfoeth o gerddoriaeth sydd gennym ni yn y Gymraeg. Er mwyn hyrwyddo'r iaith a miwsig unigryw'r Gymraeg, cynhaliom ni ddisgo ar gyfer yr Ysgol Isaf a Chanol gyda'r genhedlaeth iau yn bloeddio canu ac yn arddangos eu sgiliau dawnsio! Braint oedd trefnu'r

gweithgaredd bywiog a gweld cymaint o foddhad. Buom hefyd yn brysur yn ffilmio clipiau o athrawon a disgyblion yr ysgol gyfan yn dawnsio, chwifio, gwenu, bloeddio - y cyfan yn y Gymraeg! Roedd yr iaith yn fyw a theimlais falchder wrth weld y disgyblion yn morio canu ac wrth eu boddau yn hyrwyddo'r iaith a diwylliant yr ysgol a'n gwlad. Catalunya gan Gwilym oedd cefndir y fideos sy'n ddewis addas wrth i ninnau hefyd 'ysu am y blas'. Gwelwyd posteri yn chwifio gan yr Ysgol Isaf a Chanol a hoffaf ddiolch yn fawr i Fenter Iaith RhCT am drefnu gig Hana Lili i flwyddyn 7, am brofiad cofiadwy i mi! Hoffwn ddiolch i'r athrawon am arddangos eu hoff ganeuon ar ddrysau eu hystafelloedd ac i Miss Bedwyr am drefnu cwis cystadleuol rhwng y staff a'r chweched. Heb amheuaeth, nid oes angen cyfeirio at ganlyniad y cwis - ni heb os oedd yr ail feiolin. Roedd gallu trefnu'r gweithgareddau yn brofiad gwerthfawr iawn i mi fel aelod o flwyddyn 12 ac rwyf yn ymfalchïo yn yr holl gyfleoedd mae gallu siarad yr iaith Gymraeg wedi cynnig i mi dros y blynyddoedd.

Greta Hall Williams

Mi oedd yn fraint gallu perfformio caneuon Cymraeg o flaen yr Ysgol Isaf er mwyn hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru. Roedd mwynhad y plant yn amlwg ac roedd hi'n wych eu gweld nhw'n ymuno.

Catrin England

Mentora Ieithoedd Prifysgol Caerdydd
Daeth mentor ieithoedd o Brifysgol Caerdydd i'r ysgol ar ddydd Llun y 27ain o Fawrth ar gyfer ail ymweliad gyda disgyblion Blwyddyn 8. Y tro hwn, roedd y disgyblion wedi gweithio ar idiomau a sut maent yn amrywio o un iaith i'r llall. Diddorol oedd gweld y gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng yr ieithoedd. Yna, cawsant gyfle i edrych ar ddiwylliant gan wrando ar gerddoriaeth hip hop yn Ffrangeg ac edrych ar yr iaith sydd yn cael ei ddefnyddio yn y caneuon. Hoffa'r ysgol ddiolch i Keyin ar ei gwaith ar draws y ddwy sesiwn ac mae'r disgyblion yn sicr wedi elwa a nifer ohonynt yn bwriadu parhau i astudio ieithoedd yn y dyfodol.

Parhad tudalen 11>

Ysgol Garth Olwg (Parhad)

Cafodd blwyddyn 9 y cyfle i weithio gyda mentor arall. Yn y sesiwn hwn, roedd blwyddyn 9 wedi edrych ar darddiadau eu henwau a sut mae enwau'n cael eu cyfieithu o un iaith i'r llall. Roeddent hefyd wedi edrych i'r dyfodol gan drafod y gwledydd hoffant fynd a'r ieithoedd yr hoffant eu dysgu. Roedd hyn wir wedi codi dyheadau nifer o'r disgyblion gan fod yn uchelgeisiol iawn am eu dyfodol rhyngwladol. Diolch mawr i Noah am ei waith ac am fod yn ysbrydoliaeth i flwyddyn 9.

Gŵyl Ieuenctid Cerdd

Bu ensemble lleisiol blwyddyn 10 a chôr yr Ysgol Isaf a Chanol yn perfformio mewn Gŵyl Ieuenctid Cerdd ym Mhafiliwn Porthcawl, gan dderbyn clod am safon eu canu a'u perfformio. Da iawn chi!

Mis Hanes LHDT

Ar gyfer dathlu Mis Hanes LHDT roeddem ni fel Fforwm Cydraddoldeb wedi gweithio'n galed iawn i godi ymwybyddiaeth. I ddechrau roedd yn bwysig i'r ysgol gyfan gael hanes pwysigrwydd y Mis, a gwnaethom gynnal gwasanaethau ar draws yr ysgolion i gyd – gydag aelodau amrywiol o'r Fforwm ar gyfer pob ysgol. Roedd yn wych gallu rhannu'r wybodaeth a nodi pwysigrwydd y mis gyda'r ysgol gyfan. Gwnaethom hefyd

werthu cynnyrch yr enfys a losin ar gyfer codi arian i'r Elusen Stonewall. Roedd aelodau'r Fforwm wedi gweithio yn galed i greu bathodynnau a bagiau losin. Ar gyfer yr Ysgol Isaf cafwyd disgo'r enfys – gyda phawb yn lliwgar gyda phaent wyneb a 'loom bands' amryliw. Hefyd lansiwyd cystadlaethau creu cynnyrch yr enfys a llongyfarchiadau i Leah Price Bl8 am ennill gyda'i champwaith. Roedd brwdfrydedd y disgyblion yn wych a phleser oedd gweld eu holl waith caled!

Diwrnod Rhyngwladol y Merched

Ar gyfer dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched roedd y fforwm wedi bod yn brysur yn cynnal gwasanaethau i'r Ysgolion Hŷn ac Uchaf. Hoffwn ddiolch i Grace Rogerson am ei ysgrifennu a bod mor frwdfrydig wrth ei gyflwyno. Roedd yn bwysig i'r fforwm hysbysu'r disgyblion am fenywod pwysig mewn gwahanol feysydd, felly gwnaethom daflenni gwybodaeth o fenywod ysbrydoledig i'w harddangos o gwmpas yr ysgol. I gyd fynd gyda thema'r rhyngwladol eleni sef '#embraceequity' daeth cymuned Ysgol Garth Olwg ynghyd gyda staff a disgyblion yn ymuno yn y collage i ddangos ein cefnogaeth am y dydd.

Eisteddfod yr Urdd

Bu disgyblion yr Ysgol Isaf a Chanol yn brysur yn yr Eisteddfod Gylch a Sir yr Urdd y tymor yma, gyda nifer o lwyddiannau i'r disgyblion - llongyfarchiadau i chi i gyd! Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod Sir:

Oed Uwchradd:

Grŵp llefaru Bl 10-13 - 1af. Ymgom bl 10 -13 - 2il. Côr SA Bl 13 ac iau - 1af. Parti merched bl 7,8,9 - 2il. Perfformiad theatrig i grŵp bl 10-13 - 1af. Ymgom iau - 1af. Deuawd bl 10-13 - 1af - Sara Rees Roberts a Miley Goss. Unawd bl 10-13 - 1af - Sara Rees Roberts, 2il - Ffion Fairclough, 3ydd - Catrin England. Perfformiad theatrig unigol bl 10-13 - 1af - Taliesin Thomas. Perfformiad o sioe gerdd bl 10-13 - 1af - Sara Rees Roberts. Dawns greadigol - 1af. Dawns hip hop / stryd - 1af

Oed Cynradd:

Nel Spanswick - 1af adrodd 2il canu bl 1 a 2. Anni Gwyn - 1af llefaru bl 3 a 4. Lillian Facey - 3ydd llefaru bl 5 a 6. Beca George 1af - unawd piano bl 5 a 6. Liberty Dosett 1af - drymio bl 5 a 6. Côr 2il

Da iawn i bawb ddaeth yn 1af a fydd yn cynrychioli'r rhanbarth yn Llanymddyfri.

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Wythnos Gwyddoniaeth
Roedd nifer o ddosbarthiadau wedi bod yn ymchwilio grymoedd a thrydan yn ystod ein wythnos gwyddoniaeth.

Llwyddiannau yn yr Eisteddfod Gylch
Rydym yn falch iawn o'n holl disgyblion a fu'n cystadlu: Cylch - 4 safle 1af, 5 safle 2il a 4 safle 3ydd.

Llwyddiannau yn yr Eisteddfod Sir
Sir: 3 safle 1af i Elan, Ymgon yn 2il a'r parti Llefaru yn 3ydd. Pob lwc i Elan!

Trip Bl. 4 a 5 i weld Opera Cenedlaethol Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm

Llwyddiannau yn ein Eisteddfod Ysgol

Llongyfarchiadau i Fisgien Melys sydd wedi ennill y gadair eleni.

Mwynhau cystadlu mewn sawl twrnament rygbi a phêl-droed
Diolch i Miss Mearns, Mr Michel a Miss Bowen am ein hyfforddi.

Parhad tudalen 13 >

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (Parhad)

Hwyl fawr i Mrs Barclay sy'n ein gadael ni.
Diolch am eich holl waith dros y blynyddoedd.

Mae'r disgyblion wedi croesawu aelodau newydd i'r ysgol ac maent wedi bod ar daith rownd y dosbarthiadau.

Diolch yn fawr i Griw Cyw am ddod i ddawnsio a chanu gyda dosbarth Jac Do.

Ysgol Dolau

Rygbi
Mae ein tîm rygbi bechgyn yn llwyddo i symud ymlaen a datblygu wrth i'r flwyddyn parhau. Cynrychiolwyd yr ysgol mor dda yn nhwrnamaint 10 bob ochr Ysgolion Pontypridd yn Heol Sardis. Enillon ni bob un o'n gemau grŵp a'r rownd gynderfynol, cyn disgyn yn brin tuag at y diwedd. Rydym yn edrych ymlaen at fynd i'r twrnament Cenedlaethol 10 bob ochr yn Llanymddyfri

Cynrychioli Cymru
Llongyfarchiadau enfawr i'n cyn-ddisgybl Luke Evans, sy'n 16 oed, a gynrychiolodd dîm rygbi Cymru dan 18 yn erbyn yr Alban.

Tîm TAG y Merched
Mae ein merched wedi bod yn gweithio'n galed yn adeiladu tuag at y twrnamaint TAG Urdd. Mae'r ffordd y maent wedi datblygu a gwella dros yr ychydig o wythnosau yn rhyfeddol! Chwaraeodd y merched rygbi gwych ar y diwrnod gan sgorio llawer o geisiau. Yn bennaf oll, roedden nhw i gyd yn chwarae gyda gwên ar eu hwynebau!

Seremoni Goroni a Chadeirio Ysgol Dolau
Llongyfarchiadau mawr i holl gystadleuwyr yn yr Eisteddfod yr Urdd. Mae'r holl ddisgyblion a gymerodd ran yn glod i'r ysgol. Fe fydd timau dawns blwyddyn 3/4 a 5/6 yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai. Daeth Indie Barnes a Sophia Gerrish yn drydydd yn eu cystadlaethau.

Dosbarth 2 yn mwynhau'r eira.

Ysgol Llanhari

Eisteddfod
Mor hyfryd oedd hi i gael pawb nôl at ein gilydd yn neuaddau'r ysgol ar gyfer diwrnodau Eisteddfod. Roedd y bwrlwm yn amlwg ymysg y disgyblion a nifer fawr yn awyddus iawn i berfformio. Diolch yn fawr i'r disgyblion am gystadlu, eu hymddygiad ardderchog a'r cystadlu brwd. Diolch hefyd i'r athrawon am hyfforddi ac i'r beirniaid am gyfrannu at ddiwrnod arbennig. Roedd Eisteddfod Ysgol 2023 yn un i'w chofio. Llongyfarchiadau mawr hefyd i bob un a gystadlodd yn yr Eisteddfod Cylch ar ddechrau mis Mawrth. Braf cael pawb nôl at ei gilydd i gystadlu o flaen cynulleidfa.

Iechyd Meddwl
Cwblhaodd y disgyblion weithgareddau yn eu dosbarthiadau i ddathlu Wythnos Iechyd Meddwl Plant. Edrychwyd ar y rhesymau pam ei bod hi'n bwysig dysgu am a gofalu am ein hiechyd meddwl.

Tripiau
Sain Ffagan
Cafodd disgyblion blwyddyn 2 a 3 amser bendigedig yn Sain Ffagan er mwyn

atgyfnerthu'r dysgu am Oes Victoria. Roedd mynd i'r ysgol a phrofi dydd ym mywyd disgyblion Oes Victoria yn agoriad llygaid ac yn brofiad unigryw i bob un. Aethant hefyd i'r siop i ddysgu am sut roedd pobl yn siopa yn ystod y cyfnod. Roedd llawer o ffeithiau diddorol i'w dysgu. Roedd ymddygiad pawb yn wych a braf oedd gweld y chwilfrydedd ar wynebau pob un.

Pwll Mawr
Aeth disgyblion o ddosbarth Tylluan i Bwll Mawr fel rhan o'r thema a'r ffaith eu bod yn dysgu am y Chwyldro Diwydiannol. Cawsant gyfle i fynd o dan ddaear a chymryd rhan mewn gweithdy arbennig gan yr amgueddfa.

Plantasia
Mwynheuodd disgyblion blwyddyn 7 daith i 'Plantasia' yn Abertawe. Roeddent yn sicr wedi dysgu llwyth o ffeithiau diddorol ac wedi cael cyfle i ddal ambell anifail.

Pobi cacennau Fictoria
Mae disgyblion o flwyddyn 2, 3 a 4 wedi bod yn brysur yn pobi cacennau fel rhan o'u thema 'Amser Maith yn Ôl'. Am brofiad i fynd draw i'r gegin i greu'r cymysgedd a gwylio'r cacennau'n codi. Amser i addurno wedyn cyn blasu a mwynhau. Ymdrech arbennig!

Ti a Fi
Braf oedd croesawu grŵp Ti a Fi i Lanhari am y tro cyntaf. Braf oedd gweld cymaint yn cefnogi a gobeithio wir eu bod wedi mwynhau. Mae Abbie Owens yn rhedeg y sesiwn sydd yn cael ei chynnal ar fore Llun am 9y.b.

Dydd Gŵyl Dewi
Mae dechrau mis Mawrth yn adeg brysur. Braf oedd gweld cymaint o blant yn eu gwisgoedd traddodiadol ac yn gwisgo coch. Smart iawn.

Diwrnod y Llyfr
Roedd Diwrnod y Llyfr yn gyfle i ni fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a gemau darllen. Daeth y plant a'r staff i'r ysgol wedi gwisgo'n wahanol, llawer fel eu hoff gymeriadau o lyfrau ac eraill fel ansoddair. Roedd pawb yn edrych yn wych a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth unwaith eto.

Parhad tudalen 15 >

Ysgol Llanhari
(Parhad)

Chwaraeon
Llongyfarchiadau mawr iawn i'r timau hoci a fu'n cystadlu'n ddiweddar yng nghystadleuaeth yr Urdd. Roedd y merched wedi ennill 4 gêm allan o 5 a'r bechgyn wedi dod yn 3ydd yn y gystadleuaeth gyfan. Diolch i Miss Jones am hyfforddi. Da iawn hefyd i'r tîm rygbi merched o flwyddyn 9 a 10 a fu'n cystadlu yn ddiweddar. Arbennig.

Pythefnos Masnach Deg
Bu'r disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd Masnach Deg, yn edrych am y symbol ar becynnau bwyd ac yn cymharu pris bwydydd gwahanol ar y 'Chromebooks'.

Diwrnod Pi
Dathlwyd Diwrnod Pi wrth ofyn i ddisgyblion o flwyddyn 5, 6, 7 a 8 i bobi cacennau siâp cylch a'u dod i'r ysgol i'w gwerthu. Roedd cacennau o bob lliw a llun a rhai yn hynod o greadigol. Diolch i bawb am gymryd rhan ac am gefnogi.

Jemeima

Yr Haf yma, bydd Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno cynhyrchiad newydd sbon i theatrau ar draws Cymru, a nawr ry'n ni'n gwybod pa actorion fydd yn mynd ar yr antur newydd hon!

Mae *Jemima*, gan Jeremy Turner yn ddrama newydd sbon llawn canu, hanes a direidi i blant 7+ am un o fenywod pwysicaf hanes Cymru – Jemima Nicholas. Mae Arad Goch yn adnabyddus am waith theatr i gynulleidfaoedd ifanc sydd yn tynnu ar hanes, chwedlau a chymeriadau Cymru, gyda chynyrchiadau fel *Guto Nyth Brân*, *Twm Siôn Cati* a *Beca*. Y tro hwn mi fydd y cwmni sydd yn aml yn teithio i berfformio yn rhyngwladol, yn rhoi'r sylw i'r arwres o Sir Benfro - y fenyw a orfododd ddwsin o filwyr Ffrainc i ildio yn ystod Brwydr Abergwaun yn 1797 gyda'i phicfforch!

Bydd *Jemima* yn teithio i 19 o theatrau ledled Cymru rhwng y 23ain o Fai a Gorffennaf yr 8fed - Canolfan Garth Olwg: 24/5 13.00 a 25/5 10.00. MEMO Bari 13/6 10.00. Glan yr Afon Casnewydd: 14/6 10.00. Theatr Soar: 30/6 10.00. Theatr Sherman: 7/7 13.30 a 8/7 13.30.

Mae'r cast yn llawn wynebau newydd, gyda'r rhan helaeth yn perfformio gyda'r cwmni am y tro cyntaf, sef Nia Elin Rees, Leigh Alexandra a Catrin Mai Edwards. Cwblheir y cast gan gyda Gwern Phillips a Niamh Moulton – dau sydd wedi perfformio gyda ni yn ddiweddar; mae Gwern ar hyn o bryd ar daith gyda gyda'n perfformiad *Ble Mae'r Dail yn Hedfan*, a roedd Niamh yn rhan o gast y cynhyrchiad *Tu Fewn Tu Fas*.

Siop Sul y Mamau
Diolch i Ffrindiau Llanhari am gynnal Siop Sul y Mamau eto eleni. Gobeithio fod pawb yn hapus gyda dewisiadau'r plant.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 20fed Mawrth 2023 cawsom ddarlith ddiddorol a gwahanol i'r arfer ar 'Atgofion Echdoriadol: Eldfell, 1973' gan Rhian Meara o Brifysgol Abertawe. Mae Rhian yn gyn-ddisgybl Ysgol Glantaf, mae ganddi raddau o Gaerlŷr a Chaeredin, ac mae hi nawr yn ddarlithydd yn Adran Ddaearyddiaeth yn Abertawe. Mae cysylltiad cryf gan Rhian â Gwlad yr Iâ, rhywbeth ddechreuodd ar wyliau teuluol yn 1990au ac sydd wedi parhau trwy brosiect doethur a lot o waith maes dros y blynyddoedd. Digwyddodd testun ein sgwrs heno cyn i Rhian gael ei geni, ond mae atgofion am Echdoriad llosgfynydd Eldfell yn dal yn fwy iawn i lawer o drigolion Ynysoedd Westman, pwynt mwyaf deheuol Gwlad yr Iâ.

Mae Ynysoedd Westman yn rhan o'r Parth Folcanig Dwyreiniol ac felly yn ardal actif am losgfynyddoedd. Ymddangosodd ynys newydd a enwyd yn Surtsey yn 1963 ac am 2 y bore ar 23ain Ionawr 1973 dechreuodd yr echdoriad a arweiniodd at ffurfio llosgfynydd newydd o'r enw Eldfell ar Ynys Heimaey. Symudwyd y rhan fwyaf o'r boblogaeth o 5300 i'r tir mawr, heb golled bywyd, gan adael tua 300 ar ôl i weithredu fel heddlu ac ymladdwyr tân. Ar ôl i'r echdoriad orffen, roedd rhaid symud 2.8 miliwn metr ciwbig o lwch folcanig o'r ynys ac adeiladu cartrefi newydd i'r rhai wnaed yn ddigartref.

Daeth y rhan fwyaf o boblogaeth Haimaey yn ôl, ac mae Rhian yn awyddus i ddeall fel mae'r digwyddiad pwysig yma yn hanes yr ynys yn cael ei gofio hanner canrif yn hwyrach. Mae hi wedi holi nifer o drigolion yr ynys ac wedi mynd i nifer o ddigwyddiadau fel rhan o'r prosiect rhyngddisgyblaethol yma. Mae hi wedi cofnodi fel bod ymweld ag amgueddfa'r llosgfynydd yn gallu achosi teimladau trawmatig ymhlith y rhai oedd yn cofio'r digwyddiad. Mae plant ysgol yn dysgu llawer am y llosgfynydd i wneud yn siŵr bod neb yn anghofio'r dyddiau cythryblus yn 1973.

Rhys Morris

Ysgol Creigiau

Eisteddfod Ysgol
Dathlon ni Ddydd Gŵyl Dewi drwy gynnal ein Heisteddfod yn neuadd yr ysgol. Yn y bore roedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi mwynhau gwrando ar eu ffrindiau'n llefaru ac yn canu yn Gymraeg a gwobrwywyd disgyblion o bob dosbarth gyda thystysgrifau a sticeri am eu gwaith llythrennedd a chelf. Ar ôl chwarae'r bore daeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i mewn i'r neuadd - fel gallwch ddychmygu roedd yr awyrgylch ychydig yn fwy cystadleuol! Roedd disgyblion o'r pedwar llys yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiol gystadlaethau offerynnol a chystadlaethau llefaru. Daeth yr Eisteddfod i ben gyda phob disgybl CA2 yn cystadlu yng nghystadleuaeth y côr. Roedd hi'n ddiweddglo anhygoel i Eisteddfod gofiadwy. Ar ôl brwydr agos Collwyn oedd yn fuddugol. Hoffem ddiolch i'r disgyblion i gyd am eu hagwedd brwdfrydig drwy'r dydd ac am ddangos eu cefnogaeth i aelodau o'u llys ac aelodau o'r llysoedd eraill. Gwych iawn yn wir!

Capteiniad ein Heisteddfod Ysgol

Ymweliad PC Davies
Daeth PC Mirain Davies, ein Swyddog Heddlu Cymunedol, i'r ysgol i gyflwyno gwersi i ddisgyblion yr Adran Gymraeg. Dysgon nhw wersi pwysig a gwerthfawr - diolch PC Davies!

Diwrnod y Llyfr
Dathlon ni 'Ddiwrnod y Llyfr' yn yr ysgol drwy wisgo i fyny fel cymeriad o'n hoff lyfr a derbyniodd pob plentyn docyn llyfr gwerth £1. Cawsom ddiwrnod i'r brenin!

Dosbarth 3 yn mwynhau Diwrnod y Llyfr

Dŵr Cymru
Yn ddiweddar daeth Steph, o Ddŵr Cymru, i'r ysgol i gynnal gwasanaeth i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a gweithdy i ddisgyblion Blwyddyn 3 ar arbed dŵr. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau addysgiadol a pherthnasol.

Arwerthiant Cacennau
Cawsom arwerthiant cacennau llwyddiannus iawn ar ôl ysgol yn ddiweddar, Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu a diolch arbennig i rieni Class 6 a Dosbarth 6 am gyfrannu'r cacennau. Codwyd £250!

Tenis
Bob dydd Mawrth y tymor hwn mae Matthew Griffiths, hyfforddwr Clwb Tenis Creigiau, wedi ymweld i gyflwyno sesiynau tenis i'n disgyblion. Mae'r disgyblion i gyd wedi cael amser gwych yn dysgu sgiliau newydd.

Diwrnod Rhyngwladol y Merched
Dathlodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched drwy ymuno gyda digwyddiad gan Addewid Caerdydd ar Teams. Clywsant straeon gan fenywod ysbrydoledig sy'n gweithio i Microsoft. Dysgon nhw am eu taith a'u gyrfaoedd a sut y gall pobl ifanc ddechrau archwilio i ddyfodol mewn Technoleg. Roedden nhw i gyd wedi mwynhau'n fawr.

Diwrnod Trwyn Coch
Gwisgodd pawb mewn lliw o'r enfys i ddathlu Diwrnod Trwyn Coch. Gawson ni lawer o hwyl yn creu 'enfys' ar iard yr ysgol! Bu pob dosbarth yn brysur yn gwneud gweithgareddau amrywiol ar thema'r enfys yn ystod y dydd. Bu'r disgyblion hŷn yn trafod sut y bydd yr arian a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi elusennau sy'n helpu sicrhau bod gan blant ledled y byd hawl sylfaenol "i oroesi a ffynnu". Dysgon nhw sut y bydd yr arian a godwyd yn helpu ariannu prosiectau sy'n sicrhau bod plant yn tyfu i fyny gyda chartref diogel, maeth da a mynediad at ofal iechyd. Roedden nhw'n trafod Hawliau Plant a pha mor freintiedig ydyn nhw i'w cymharu â rhai plant ledled y byd. Codon ni £340 a gwerthon ni 200 trwyn coch – gwych!

Gwersi Nofio
Bob prynhawn am bythefnos yn ystod mis Mawrth, bu disgyblion Dosbarth 4 yn ymweld â Chanolfan Hamdden y Tyllgoed i gael gwersi nofio. Roedd pob un wedi gwella eu sgiliau nofio - da iawn Dosbarth 4!

Dosbarth 4 yn mwynhau eu sesiynau nofio

Eisteddfodau'r Urdd
Ddydd Sadwrn, 11eg o Fawrth, bu 74 o'n disgyblion yn cystadlu'n frwd yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Glantaf. Cystadlon nhw mewn cystadlaethau canu a llefaru, iaith gyntaf ac ail-iaith. Rydyn yn hynod falch o bawb a gystadlodd. Aeth y cyntaf ac ail o bob cystadleuaeth ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir ddydd Sadwrn, 25ain Mawrth. Roedd pob un o'n disgyblion wedi perfformio'n wych a chawsom ddiwrnod llwyddiannus dro ben.
1af i Raffaele, Class 2, Llefaru Bl 2 ac iau i ddysgwyr. 2il i Holly, Class 2, Llefaru Bl 2 ac iau i ddysgwyr
1af i Eddie, Class 4, Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr. 2il i Florence, Class 4, Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr
1af i Elsie, Class 6, Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr. 2il i Freya, Class 6, Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr
1af i'r Parti Llefaru i ddysgwyr
1af i'r Ymgom i ddysgwyr
2il i'r Ymgom i ddysgwyr
· 3ydd i'r Parti Unsain
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu. Bydd pob cystadleuaeth gafodd 1af yn cynrychioli'r ysgol a Chaerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Llanymddyfri yn ystod hanner tymor y Sulgwyn.

Cystadleuwyr yr Eisteddfod Sir

Gwersi PBuzz
Pob bore Gwener mae Gareth Roberts o Wasanaeth Cerdd Caerdydd yn dod i'r ysgol i ddysgu gwersi PBuzz i ddisgyblion Dosbarth 3 a Class 3. Maen nhw i gyd yn mwynhau dysgu sut i chwarae nodau cerddorol yn fawr ac maent yn cael llawer o hwyl.

Sesiynau Criced
Yn ddiweddar bu tri aelod o Glwb Criced Creigiau yn ymweld â'r ysgol i gyflwyno dwy sesiwn griced - un i Ddosbarth 5 ac un i Class 5. Roedd pawb wrth eu boddau. Bydd disgyblion Blwyddyn 4 a 6 yn derbyn hyfforddiant ar ôl gwyliau'r Pasg.

Eglwys y Bedyddwyr Bethel
Croesawyd disgyblion Dosbarth 5 yn gynnes i Eglwys y Bedyddwyr Bethel ym Mhontyclun, lle dysgon nhw am sut mae Cristnogion yn dathlu'r Pasg. Trafodwyd stori'r Pasg mewn grwpiau a mwynheuodd y disgyblion ddrama, cwis ac wyau siocled! Diolch i'r Eglwys a'i haelodau ac i Mr Colman a'r cynorthwywyr gwirfoddol.

Enillwyr Dwlu Darllen
Cyn gwyliau'r Pasg bu pump o ddisgyblion Class 6 yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'Dwlu Darllen'.

Parhad tudalen 17 >

Ysgol Creigiau
(Parhad)

Enillwyr Dwlu Darllen

Mae'n gystadleuaeth flynyddol a drefnir gan Gonsortiwm Canolbarth y De er mwyn i ddisgyblion ysgolion cyfrwng Saesneg arddangos eu sgiliau llafar Cymraeg a'u mwynhad o ddarllen. Siaradodd y pum disgybl yn rhugl am y llyfr "Oes Fictoria". Ymhen ychydig ddyddiau fe dderbynion ni e-bost i'n hysbysu mai ni oedd yn fuddugol! Roedd y beirniaid yn canmol sgwrsio rhugl y disgyblion am yr Oes Fictoria a'u gallu i drafod llyfrau eraill yr oeddent wedi'u darllen. Llongyfarchiadau mawr i Lily, Emily, Callum-Rhys, Elsie ac Ava. Gwych - tipyn o gamp yn wir. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant.

Eisteddfod Ddawns yr Urdd
Llongyfarchiadau i'r sgwad Dawnsio Disgo a gystadlodd yn Eisteddfod Ddawns yr Urdd yn Ysgol St. Cyres, Penarth brynhawn Mercher, 22ain o Fawrth. Roedd safon y dawnsio yn uchel a pherfformiodd y merched yn ardderchog. Daethant yn drydydd allan o 8 grŵp. Da iawn ferched - gwych! Diolch o galon i Mrs Tewkesbury, Mrs Long a Miss Phillips am eu hyfforddi.

Dawnswyr Talentog yr Eisteddfod Ddawns

Plantasia
Aeth Dosbarth 4 a Class 4 i ymweld â Plantasia yn Abertawe i weld sut brofiad fyddai cerdded drwy goedwigoedd glaw go iawn a threulio amser yn archwilio'r Sw Drofannol. Cawsant hefyd weithdy lle buont yn dal amryw o anifeiliaid sy'n byw mewn coedwigoedd glaw. Mwynheuon nhw'r profiad yn fawr.

Sioe Anifeiliaid Gwyllt
Cafodd Dosbarth 2 a Class 2 brynhawn bendigedig yn ddiweddar yn dysgu am wahanol anifeiliaid o bedwar ban byd. Roeddent i gyd yn gyffrous iawn wrth ddal yr anifeiliaid. Dysgon nhw ffeithiau hynod ddiddorol am yr anifeiliaid a'u cynefinoedd. Gofynnodd y disgyblion nifer o gwestiynau diddorol ac roeddent yn gallu ateb llawer hefyd! Da iawn i chi gyd am

Dosbarth 2 yn mwynhau'r Sioe Anifeiliad Gwyllt

rannu eich gwybodaeth! Diolch i Chris a'r anifeiliaid i gyd am ymweld â ni.

Twrnamaint Rygbi Tag a Thaclo
Ddydd Llun, 27ain o Fawrth, aeth pedwar tîm rygbi - taclo a thag i gystadlu yn Nhwrnamaint yr Urdd a gynhaliwyd ar gaeau Llandaf. Chwaraeon nhw i gyd yn wych gydag un tîm tag merched ac un tîm rygbi cymysg yn cyrraedd y rownd gynderfynol. Ymdrech wych gan bawb - llongyfarchiadau!

Ymweliad y Llywodraethwyr
Brynhawn Mercher cyn y gwyliau ymwelodd pedwar aelod o'n Corff Llywodraethol â'r ysgol i fynd am Daith Ddysgu, siarad gyda disgyblion a mwynhau te prynhawn gyda'n haelodau SNAG. Dangoswyd y llywodraethwyr o gwmpas yr ysgol gan ein Harweinwyr 'Cwrdd â Chyfarch' Blwyddyn 6 Ymwelon nhw â phob dosbarth a gwnaethant sylwadau ar frwdfrydedd y disgyblion am eu dysgu, eu hyder, eu hannibyniaeth a'u hymddygiad rhagorol. Fe fwynheuon nhw eistedd i lawr gyda disgyblion Blwyddyn 6

Mei Gwynedd yn Acapela

Bydd Mei a'r Band Tŷ Potas yn lansio yr LP yn Acapela ar Fai 5ed gan edrych ymlaen at berfformio'r caneuon ar lwyfannau a thafarndai Cymru. 'Rwy'n edrych ymlaen at gael hwyl yn perfformio'r clasuron yma, ond hoffwn agor y drysau i gynulleidfa newydd, efallai rhai di-Gymraeg, a dangos gweddill y byd bod ni yng Nghymru gyda chlasuron ein hunain sy'n sefyll cefn yng nghefn gyda chaneuon gweddill y byd'. https://acapela.co.uk/

i fwynhau Te Prynhawn blasus a baratowyd gan aelodau'r grŵp SNAG.

Noson Ffilm
Ddydd Iau olaf Tymor y Gwanwyn cynhaliodd Cyfeillion yr Ysgol Noson Ffilm lwyddiannus yn neuadd yr ysgol. Daeth llond neuadd o ddisgyblion i'r ysgol i fwynhau 'Minions - The Rise of Gru' gyda'u ffrindiau. Diolch yn fawr i'r disgyblion am eu brwdfrydedd ac i'r gwirfoddolwyr a'r staff am helpu.

Timau Rygbi yn Nhwrnamaint yr Urdd

Dathlu Diwrnod Trwynau Coch mewn lliw

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Dydd Gŵyl Dewi
Cafodd y plant hwyl mawr wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni. Dyma nhw yn edrych yn wych yn eu gwisgoedd.

Diwrnod y Llyfr
Ar ddechrau mis Mawrth cafodd y plant gyfle i ddathlu Diwrnod y Llyfr drwy ddod â'u hoff lyfr i'r ysgol i ddangos i'w ffrindiau. Mwynheuodd y plant wneud llu o weithgareddau gan gynnwys tynnu lluniau o'u hoff gymeriadau, rhannu eu llyfr gyda ffrind a gwrando ar eu hoff awduron yn siarad am eu gwaith.

Eisteddfodau Cylch a Sir
Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu'n frwd yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir y mis hwn. Perfformiodd pawb yn wych ac enillwyd llu o wobrau 1af, 2il a 3ydd. Llongyfarchiadau enfawr i bawb a phob lwc i Alana ac Izzy (deuawd), y parti unsain, grŵp llefaru, ymgom, parti deulais a'r côr fydd yn cynrychioli sir Morgannwg Ganol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanymddyfri ym mis Mai.

Ymweliad Blwyddyn 5 a 6 i'r Gerddi Botaneg
Aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad â'r Gerddi Botaneg yn ddiweddar. Cawson nhw gyfle i weld yr holl blanhigion gwahanol a diddorol yn y gerddi, yn ogystal â dysgu am lygredd a'r amgylchfyd.

Rygbi
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol am chwarae'n arbennig o dda y mis hwn. Cystadlodd y tîm yn nhwrnament rygbi'r Urdd gan ennill, colli a dod yn gyfartal unwaith yr un. Daeth y tîm hefyd yn ail yn nhwrnament ysgolion Pontypridd.

Size of Wales
Bu disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn brysur yn dysgu am bwysigrwydd gofalu am ein planed diolch i "Size of Wales", sef ymgyrch i arbed darnau o dir y fforestydd glaw yr un maint â Chymru.

Parhad tudalen 19 >

Bethlehem, Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Ebrill 2023:
2 Ebrill – Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys
7 Ebrill – Oedfa Bore Gwener y Groglith (am 10:00 a.m.)
9 Ebrill - Oedfa Sul y Pasg dan ofal Delwyn Siôn
16 Ebrill – Taith Gerdded
23 Ebrill – Oedfa dan ofal Arwel Ellis Owen
30 Ebrill – Oedfa dan y Parchedig Jeff Williams

Mis Mai 2023:
7 Mai – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
14 Mai – Oedfa Cymorth Cristnogol
21 Mai – Oedfa Ardal Gorllewin Caerdydd
28 Mai – Oedfa dan ofal Huw Lloyd

---oooOOOooo---

Rydw i'n ymwybodol fy mod wedi troi ym myd Gemau Olympaidd 1968, a gynhaliwyd yn Ninas Mecsico, mewn erthygl flaenorol yn y Tafod Elái [gweler rhifyn Gorffennaf 2020], ond dwi ddim am ymddiheuro am wneud hynny eto.

Gemau'r XIX Olympiad oedd y rhain, a'r cyntaf i'w cynnal yn America Ladin. Y cyntaf hefyd i'w cynnal mewn gwlad Sbaeneg ei hiaith, a'r cyntaf i ddefnyddio trac pob-tywydd ar gyfer y campau athletig.

Dyma'r tro cyntaf hefyd pan daeth dibyniaeth gyfan gwbl ar amseru electronig yn rhan o'r gemau.

A dyma'r tro cyntaf y gallem weld lluniau lliw o'r digwyddiadau yn cael eu darlledu - petai teledu lliw ar gael yn ein cartrefi i'w derbyn!

Mae'n debyg i'r dorch a gariai'r fflam Olympaidd o wlad Groeg i Fecsico ddilyn llwybr Christopher Columbus yn 1492, ar ei daith i ddarganfod y Byd Newydd, gan ymweld â'r Eidal, Sbaen, Ynysoedd San Salvador a'r Bahamas yn ei thro.

Bydd ambell i atgof gennych am y gemau rheini (yn hytrach na'r erthygl siŵr o fod), oherwydd roedd 'na bethau trawiadol wedi digwydd yn ystod yr ŵyl o gystadlu a seriwyd ar ein cof.

Protest yr Americanwyr Tommie Smith a John Carlos, ynghyd a'r Awstraliad Peter Norman, yn seremoni gwobrwyo enillwyr y ras 200 metr oedd un o'r prif ddigwyddiadau a fynnodd sylw'r byd.

Ond tybed a gofiwch mai yma yr enillodd George Foreman ei fedal aur fel bocsiwr pwysau trwm yn dilyn llorio'r Lithiwaniad (Sofietyn bryd hynny), Ionas Chepulis, yn yr ail rownd?

Yn y byd gwleidyddol / diplomatig, bu i Ddwyrain a Gorllewin yr Almaen gystadlu fel dwy wlad ar wahân am y tro cyntaf (a pharhau felly tan 1988). Hefyd bu Barbados yn cystadlu fel gwlad annibynnol am y tro cyntaf yn ei hanes.

Enillodd yr Americanwr Al Oerter ei bedwaredd fedal aur yn olynol yn y gamp o daflu'r Ddisgen, ac fe neidiodd Bob Beamon 8.90 meter yng nghystadleuaeth y Naid Hir, record byd a barhaodd tan 1991, (ond sydd o hyd yn record Olympaidd).

Fe waharddwyd y *pentathlete* Hans-Gunnar Lilienwall o Sweden, y cyntaf erioed i'w ddiarddel am brofi'n gadarnhaol i brawf cyffuriau, a hynny oherwydd iddo yfed dau wydraid o gwrw ychydig cyn cymryd rhan yng nghystadleuaeth saethu'r gamp.

A druan o John Stephen Akhwari o Danzania a ddaeth yn enwog am ddod yn olaf yng nghystadleuaeth y Marathon, gan orffen y ras gyda phen-glin ddatgymaledig.

A phwy tybed sydd yn cofio Dick Fosbury?

Ie yn y Gemau Olympaidd yn Ninas Mecsico yr enillodd yntau ei fedal aur am y Naid Uchel [2.24 metr], gan fabwysiadu techneg wahanol, anghonfensiynol bryd hynny, o neidio dros y bar wysg ei gefn. Parhaodd y gystadleuaeth arbennig honno am gyfnod o dros bedair awr!

Mabwysiadawyd ei dechneg, a elwir y "Fosbury flop", gan bron bawb yn y gamp byth ers hynny. "Ar y pryd *'roedd y cyfan yn teimlo mor naturiol i mi, ac fe synnwn nad oedd neb wedi dewis y dull yma o neidio ynghynt*!"

Adroddodd iddo yntau, wedi chwarae anthem genedlaethol yr Unol Daleithiau ar ddiwedd seremoni'r fedal Naid Hir yn Ninas Mecsico, godi ei ddwrn mewn cydymdeimlad â Tommie Smith a John Carlos.

Bu farw Richard Douglas Fosbury ar y 12fed o Fawrth eleni, ac yntau newydd gyrraedd ei 76 mlwydd oed. Gweld teyrnged iddo fu'r ysbrydoliaeth i'r erthygl yma, gan sylwi gyda diddordeb ei fod ef a minnau wedi dilyn yr un yrfa fel peirianwyr sifil yn ystod y saithdegau cynnar!

Soniwyd amdano fel gŵr diymhongar – wedi ennill ei fedal, ni ddychwelodd i fyd cystadleuol yr Olympics byth wedyn, er iddo fod yn ymwneud ac athletau am gyfnod.

Bu'n aelod o glwb dethol (54 ohonynt) "Pencampwyr dros Heddwch", sef criw o athletwyr a fu'n hyrwyddo heddwch byd trwy chwaraeon, ac fe sefydlodd, gydag eraill "World Fit", corff dielw oedd yn hyrwyddo rhaglen ffitrwydd ar gyfer ieuenctid, gan gofleidio gwerthoedd yr Olympics.

Ac yn ôl ei gyfaddefiad ei hun flynyddoedd yn ddiweddarach, cyffesodd bod yr holl sylw a gafodd wedi'r gemau wedi bod yn fwrn arno - "*'Roedd yn ormod i mi - plentyn o dref fechan oeddwn a gyflawnodd ymhell tu hwnt i'm disgwyliadau. Mwynheais y profiad ar y pryd, ac 'roedd pobl yn fy ngosod ar bedestal. Ond 'roeddwn hefyd yn awchu dychwelyd a chael fy nhraed 'nôl ar y ddaear unwaith yn rhagor.*" [addas iawn i un a neidiau i'r awyr yn y lle cyntaf!]

Ac am y dewis enw i'w dechneg?

Mae'n debyg i newyddiadurwr ofyn i Dick beth oedd enw'r dechneg a ddefnyddia, ac ymatebodd, gan fenthyg pennawd o bapur newydd lleol yn 1964 (y "Medford Mail-Tribune") a gynhwysai ei lun a'r geiriau "*Fosbury flops over the bar*" yn gwmni iddo.

"*'Roedd yn gyflythrennog, yn ddisgrifiadol, ac fe hoffwn ei amwysedd –* ***y gallai "flop" fod yn llwyddiant!****'*"

"*Ac ar ôl hyn cafodd yr eglwys yn Jwdea, Galilea a Samaria gyfnod o dawelwch a llwyddiant – roedd ffydd y credinwyr yn cryfhau ac roedd eu niferoedd yn cryfhau ac roedd eu niferoedd yn tyfu hefyd.*" [Actau 9:31 Beibl.net]

Tybed nad oes 'na wers i ni gyd felly o gofio hynny!

Pasg hapus bawb ohonoch.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Parhad

Cerddorfa linynnol Blwyddyn 3
Diolch o galon i Wasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru am ymweld â'r ysgol yr hanner tymor hwn i gynnal gwersi offerynnol i ddisgyblion Blwyddyn 3. Dyma gyfle arbennig i'r plant gael profiad o ganu'r ffidil a'r cello. Cafodd y plant berfformio gyda'i gilydd fel cerddorfa ac roedden nhw'n wych!

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Neve am gystadlu gyda'i grŵp dawns "Dance Crazy" yn Stoke yn ddiweddar ym mhencampwriaeth ddawns. Daeth hi'n gyntaf a bydd hi'n mynd ymlaen i Blackpool i gystadlu yn erbyn gwledydd eraill yn y bencampwriaeth Ewropeaidd.

Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Dydd Gŵyl Dewi
Roedd Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod penigamp yma yn Ysgol Evan James. Gwisgodd y plant eu gwisgoedd Cymreig a chafodd pawb bice ar y maen. Diolch i'r cwmni "Bakestones" o Aberdâr am roi'r pice i ni. Roedden nhw'n flasus iawn. Yn dilyn diwrnod prysur o ddathlu, cynhaliwyd ffair lyfrau Cymraeg yn neuadd yr ysgol. Daeth "Storyville Books" o dref Pontypridd i'r ysgol a gwerthwyd nifer fawr o lyfrau. Diolch i chi gyd am gefnogi mor frwd.

Diwrnod y Llyfr
Daeth pob disgybl i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr eleni. Daethant â'u hoff lyfrau i'r ysgol ac roedd y diwrnod yn llawn bwrlwm.

Eisteddfodau
Mae'r disgyblion wedi bod wrthi'n ymarfer yn ddiwyd y mis hwn wrth baratoi ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd. Aeth nifer o blant i Theatr Canolfan Gydol Oes Garth Olwg i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Perfformiodd pawb yn wych a chafwyd cryn lwyddiant. Llongyfarchiadau i Gwenno am ddod yn gyntaf yn yr unawd i flwyddyn 5 a 6. Roedd Gwenno'n fuddugol unwaith eto yn y ddeuawd gyda Mari Butcher. Cipiodd y Parti Unsain y wobr gyntaf hefyd. Daeth Ffion Caffrey yn ail yn yr unawd i flwyddyn 3 a 4. Cafwyd ail wobr arall i'r grŵp dawnsio disgo/hip hop. Bythefnos yn ddiweddarach, aethant i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mhafiliwn Porthcawl. Fe fydd Gwenno yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanymddyfri yn yr Unwawd Blwyddyn 5 a 6.

Taith Hanes ym Mhontypridd
Dysgodd Dosbarth Elin Fflur gymaint am ein tref hanesyddol pan aethant ar daith gydag Aled o Ganolfan Calon Taf. Mae'r plant wrth eu boddau'n mynd i Barc Ynysangharad a dysgodd pob un gymaint o bethau newydd yn ystod y daith. Edrychwn ymlaen at ddod â'r dosbarthiadau eraill ar daith cyn hir.

Dydd y Trwynau Coch
Trefnodd y Cyngor Iechyd a Lles ddiwrnod yn llawn hwyl a sbri unwaith eto eleni. Daeth y disgyblion i'r ysgol yn eu dillad eu hunain ac roedd cystadleuaeth i ddylunio Mr Men neu Little Miss newydd sbon. Roedd syniadau'r disgyblion yn ardderchog a chyhoeddwyd yr enillwyr yn y gwasanaeth. O Bentre Bach, Phoebe-Rae Gair; o Gwm Clyd Fraser Bishop ac o Ddyfryn Diogel Gruffudd Cran

Sioe Ffasiwn y 60au
Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang yn ystod sioe ffasiwn y 60au. Roedd Dosbarth Culhwch ac Olwen, Blodeuwedd a Pwyll a Rhiannon wedi bod yn gweithio ers wythnosau'n ymchwilio, dylunio a chreu dillad i efelychu ffasiynau'r 60au. Aethant i siopau elusennol yn y dref i brynu ategolion a phan gyrhaeddodd y diwrnod mawr, roedd pawb yn edrych yn wych. Llwyddiant ysgubol!

Cystadlaethau chwaraeon
Roedd mis Mawrth yn fis prysur iawn i dimau chwaraeon yr ysgol. Chwaraeodd timau pêl-droed yr ysgol mewn nifer o gystadlaethau gan gynnwys cystadleuaeth Rhondda Cynon Taf gan wneud yn wych.

Aeth y tîm rygbi i Benybont i gystadlu yn nhwrnament yr Urdd. Cawsant ddiwrnod arbennig yn y glaw a'r mwd.

Gweithdy Cracio'r Pasg
Aeth Dosbarth Blodeuwedd i Eglwys Temple Baptist ym Mhontypridd i ddysgu mwy am stori a thraddodiadau'r Pasg. Diolch i bawb yn yr eglwys am y croeso cynnes.

Meadow Street
Aeth cynrychiolwyr o'r Cyngor Eco gyda Ms Kennard a Miss Spencer i'r ganolfan amgylcheddol yn Meadow Street, Trefforest i weld beth sydd ar gael yno. Maent yn awyddus i sefydlu partneriaeth gyda Meadow Street er mwyn i ddosbarthiadau allu mynd yno i rai o'u gweithdai.

Bore Lles
Diolch i dîm Lles yr ysgol am drefnu bore coffi i deuluoedd yr ysgol ddysgu am ein darpariaeth yma yn yr ysgol. Roedd ein teuluoedd wrth eu boddau'n dysgu am yr holl waith a'r ymyraethau a wneir yma.

menter caerdydd

Gweithgareddau'r Pasg
Gyda'r diwrnodau'n ymestyn a'r tywydd yn gwella, mae criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn brysur yn trefnu gweithgareddau gwyliau'r Pasg. Dros fisoedd yr haf, byddwn hefyd yn cynnal mwy o sesiynau i oedolion yn yr awyr agored - 'Cerdded a Chlonc' a theithiau cerdded misol – yn ogystal â'r dosbarthiadau ffitrwydd arferol i rieni newydd.

Gweithgareddau i blant yn ystod gwyliau'r Pasg
Bydd Menter Caerdydd yn trefnu cynllun **Gofal** dros y Pasg yn Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd. Y gost yw £28 y dydd a rhaid cofrestru o flaen llaw. Bydd sesiynau **Bwrlwm** yn cael eu cynnal, yn rhad ac am ddim, mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Maen nhw'n agored i bawb, o'r dosbarth derbyn hyd flwyddyn 6, a does dim angen cofrestru cyn dod. Cewch hyd i'r manylion llawn ar wefannau'r Mentrau.

Oes plentyn rhwng 10 a 13 oed yn eich teulu chi? Mae cyfle gwych iddynt ymuno â Miss O'Hare ar gyfer **Gweithdy Rapio** ym Mhrifysgol De Cymru ar ddydd Mercher, 12 Ebrill. Am £15, cânt gyfle i greu rap a'i recordio mewn stiwdio!

Tymor newydd o weithgareddau i blant
Byddwn ni'n lansio cyfres o glybiau codio newydd ar ôl y Pasg i blant ym mlynyddoedd 3 i 6. Dyma bartneriaeth ar y cyd gyda Technocamps a'r sesiynau'n cael eu cynnal ar brynhawniau Llun yn yr Atrium – yn rhad ac am ddim! Ewch i'r wefan i gofrestru.

Bydd y **Gweithdy Gwyddoniaeth** fisol yng nghwmni SparkLab yn symud i'r Berllan Deg ar gyfer y tri mis nesaf. Prynhawn Llun, 17 Ebrill yw dyddiad y sesiwn nesaf a'r gost yw £11 y plentyn.

Draw yn y Fro, bydd SparkLab yn cynnal Gweithdy Gwyddoniaeth i blant bach, 2-4 oed, yn Neuadd Cwrt y Vil, Penarth ar ddydd Mawrth, 2 Mai. Cost y sesiwn yw £6 a gellir cofrestru ar wefan Menter Iaith Bro Morgannwg.

Sgwrs y Mis (Zoom)
Dr Jane Aaron fydd yn trafod ei chyfrol newydd, Cranogwen, yn Sgwrs y Mis, nos Lun, 24 Ebrill. Mae'r gyfrol, a gyhoeddir ym mis Ebrill gan Wasg Prifysgol Cymru, yn olrhain hanes Sarah Jane Rees (1839-1916) o Langrannog, ac yn ceisio esbonio sut a pham y daeth menyw ddibriod o gefndir gwerinol mor adnabyddus ymhlith Cymry ei hoes. (I gofrestru: rachel@mentercaerdydd.cymru)

Mewn Tiwn
Bore Llun, 24 Ebrill yw dyddiad ein cyngerdd gymunedol nesaf yng nghwmni cerddorion Live Music Now. Yn ymuno â ni am 11.30 yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina bydd y delynores Delyth Jenkins a'i merch, Angharad Jenkins, ar y ffidil. Dewch ychydig yn gynt i fwynhau paned a sgwrs cyn y gyngerdd!

Siaradwyr Newydd
Cofiwch gofrestru ar gyfer cyfarfod cyntaf **Cerdded a Chlonc**, fore Iau, 6 Ebrill ym Mharc Bute. Mae croeso i siaradwyr rhugl yn ogystal â'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Gwenllian fydd yn cynnal y **Bore Coffi Misol** ar Zoom ar ddydd Gwener ola'r mis felly beth am ymuno i gael sgwrs?

Gig Steve Eaves
Beth am ymuno â ni am noson o ganu, dawnsio a hel atgofion yng nghwmni Steve Eaves, nos Sadwrn, 27 Mai yn yr Eglwys Norwyaidd? Mae tocynnau ar gael am £15 ar wefan yr Eglwys - www.norwegianchurchcardiff.com

Plant Bach a Theuluoedd
Ar ôl hoe dros y Pasg, bydd yr arlwy yn ail-ddechrau mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ar ddydd Llun, 17 Ebrill.

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: @mentercaerdydd
E-bost post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888

Ysgol Tonyrefail

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau mawr i Eladie-Belle am ddod yn gyntaf ar y llefaru Blwyddyn 5 a 6, ac i Isaac am ddod yn gyntaf ar yr unawd Bl2 ac iau yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Morgannwg Ganol ym Mhafiliwn y Grand ym Mhorthcawl yn ddiweddar. Pob lwc iddynt yn yr eisteddfod yn Llanymddyfri ym mis Mai. Diolch yn fawr hefyd i'r plant fuodd yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Cylch Llanhari ble'r enillwyd: 2 wobr gyntaf, un ail a dwy drydedd wobr. Ardderchog.

Llwyddiant yn Eisteddfod Cylch Llanhari

Cystadleuwyr Eisteddfod Cylch yr Urdd

Gorymdaith Hetiau Pasg
Cafwyd gorymdaith hetiau Pasg arbennig o liwgar gan blant y dosbarth Meithrin a Derbyn. Diolch yn fawr i'r rhieni a'r plant am eu gwaith bendigedig yn creu'r hetiau

Hetiau Pasg y Dosbarth Meithrin

Hetiau Pasg y Dosbarth Derbyn

ac am ddod i gefnogi'r orymdaith. Roedd pob het yn ddigon o sioe!

Gweithdy Sglefrfyrddio
Diolch yn fawr i Danny Grehan o Ffrindiau Parc Tynybryn am drefnu i Skateboard Academy ddod i gynnal gweithdy sglefrfyrddio i blant Blwyddyn 5 a 6. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu boddau yn dysgu sgiliau newydd ac maent nawr yn edrych 'mlaen yn arw i'r parc sglefyrddio gael ei adeiladu yn Nhonyrefail.

Siarter Iaith
Fe aeth 2 gynrychiolydd o'r Criw Cymraeg i Gaerdydd i Ganolfan yr Holl Genhedloedd i dderbyn eu tystysgrif Gwobr Arian y Siarter Iaith. Diolch i bawb yn yr ysgol am weithio'n galed i sicrhau'r llwyddiant.

Seremoni Wobrwyo'r Siarter Iaith

Diwrnod Ymwybyddiaeth Syndrom Down
Ar Fawrth 21ain i godi ymwybyddiaeth o Syndrom Down daeth disgyblion i'r ysgol yn gwisgo gwahanol sanau. Bu i ddosbarth Blwyddyn 3 greu clip fideo hwyliog i hyrwyddo'r diwrnod ar y cyfryngau cymdeithasol.

Blwyddyn 3 ar ddiwrnod codi ymwybyddiaeth o Syndrom Down

Sul y Fam
Braf oedd gwahodd mamau, neiniau a pherthnasau eraill plant y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i'r ysgol i ddathlu Sul y Fam. Roedd nifer o weithgareddau amrywiol, o dan oruchwyliaeth plant Blwyddyn 6, wedi eu paratoi, ac fe gafwyd cyngerdd ar y diwedd. Diolch i bawb am gefnogi'r achlysur hyfryd yma.

Rhai o weithgareddau Sul y Fam

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi
Braf oedd gweld pob disgybl yn eu gwisgoedd Cymreig amrywiol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd eisteddfod ysgol gydag eitemau gan bob dosbarth ac fe wobrwywyd y disgyblion am eu gwaith celf ac ysgrifennu. Llongyfarchiadau arbennig i Llywelyn Bosley am ennill cadair yr eisteddfod gyda'i waith llawn dychymyg a hiwmor.

Enillwyr cystadleuaeth y Gadair

Parhad tudalen 23 >

Ysgol Pont-Siôn-Norton

Wyau Pasg
Diolch enfawr i Ffrindiau Pont-Siôn-Norton a'r cwmni adeiladu ISG am yr wyau Pasg. Aeth pawb adre gyda 2 wy Pasg i'w mwynhau dros y gwyliau!

ISG
Aeth aelodau o gynghorau'r ysgol o flwyddyn 3 a 4 i ymweld â swyddfa y cwmni adeiladu ISG i weld sut mae'r broses o gynllunio ac adeiladu yn gweithio. Roedd y plant wrth eu boddau ac wedi cael eu hysbrydoli i gynllunio adeiladau! Diolch hefyd i ISG am y gweithdai diddorol yn yr ysgol.

Mr Coleman
Daeth Mr Coleman (a Doug!) i gynnal gwasanaeth Pasg yr ysgol cyn y gwyliau. Diolch am ein hatgoffa o stori'r Pasg.

Daerwynno
Yn ystod mis Mawrth, bu disgyblion o flwyddyn 1 i 4 yn ymweld â Chanolfan Daerwynno gyda disgyblion Ysgol Heol-y-Celyn er mwyn mwynhau gweithgareddau tu allan a phontio y ddwy ysgol. Er gwaetha'r tywydd ar adegau, fe wnaeth pawb fwynhau'n fawr iawn ac maent yn edrych ymlaen at y gweithgareddau nesaf yn barod!

Y Siarter Iaith
Yn dilyn llwyddiant yr ysgol gyfan i ennill gwobr aur y Siarter Iaith, aeth aelodau o'r Cymry Cwl i'r seremoni wobrwyo i dderbyn ein tystysgrif. Rydym ni'n falch iawn o'n gwobr aur!

Eisteddfod
Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch a'r Sir yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i griw yr Eisteddfod Ddawns am ddawnsio mor wych. Diolch i chi'r plant am y perfformiadau arbennig ac i'r staff am eich hyfforddi.

Rygbi
Diolch i'r Urdd am drefnu'r diwrnod rygbi ar gaeau Penybont. Bu llawer o gystadlu brwd a llwyddiant wrth chwarae Diolch Mrs Cotter a Mr Jones am yr hyfforddiant a'r gefnogaeth.

Ysgol Tonyrefail (Parhad)

Diwrnod y Llyfr
Cafwyd diwrnod prysur yn dathlu llyfrau a darllen yn ystod 'Diwrnod y Llyfr'. Roedd y gwahanol ddosbarthiadau wedi mwynhau yn arw gwrando ar storïau yn cael eu darllen gan blant Blwyddyn 6. Roeddent wedi gwneud gwaith ardderchog yn hyrwyddo'r llyfrau. Roedd llu o weithgareddau a bwrlwm ym mhob dosbarth i ddathlu'r diwrnod.

Bl4 yn mwynhau gwrando ar stori ar Ddiwrnod y Llyfr

Bl 6 yn darllen i blant Bl1 ar Ddiwrnod y Llyfr

Tîm Rygbi'r Merched

Cwis Llyfrau
Llongyfarchiadau i blant y Cwis Llyfrau am ddod yn ail yn y Sir. Diolch Mrs Barrar am eu paratoi mor dda.

Wythnos Wyddoniaeth
Fel rhan o Wythnos Wyddoniaeth, daeth ExperiMENTAL Science i gynnal gweithdai gyda phob dosbarth o flwyddyn 1 i fyny a daeth y Planetarium i'r ysgol er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i weld a thrafod y sêr a'r planedau. Roedd y plant wedi cael diwrnod wrth eu boddau.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Mentrau Iaith Cymru a PYST yn lansio cylchdaith gigs newydd

Mae Mentrau Iaith Cymru a PYST wedi cyhoeddi eu bod am gydweithio i lansio a datblygu cylchdaith gigs newydd ar gyfer artistiaid Cymraeg. Bydd y daith gyntaf yn digwydd yn y Gwanwyn.

Nod y gylchdaith yw cynnig cyfleoedd i artistiaid deithio Cymru gyda'r pwyslais ar ymweld â mannau lle nad ydynt yn chwarae yn aml, os o gwbl. Bydd y gylchdaith hefyd yn gyfle i ddod â cherddoriaeth fyw Cymraeg yn ôl i ardaloedd sydd wedi eu hamddifadu o hynny dros y blynyddoedd diweddar. Y gobaith hefyd yw y bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn ymgysylltiad pobl â diwylliant Cymraeg a rhoi cyfle o'r newydd iddynt fwynhau hynny yn eu hardaloedd.

Cefnogir y gylchdaith hefyd gan gynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n helpu cannoedd o neuaddau pentref a grwpiau cymunedol ledled Cymru i archebu sioeau proffesiynol.

Rydym yn falch i gyhoeddi bod y band HMS Morris ac Elis Derby yn dod i Glwb y Bont ar y 14eg o Ebrill! Bydd tocynnau ar gael i'w prynu yn fuan. Cadwch olwg ar ein tudalennau cymdeithasol am ragor o fanylion.

Prosiect Medrau - Cyrsiau Addysg Oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn ystod mis Mawrth, cynhaliwyd cyfres o gyrsiau blasu addysg oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sir. Roedd cyfle i ddysgu ffeltio nodwydd, gwnïo, canu ukulele, cyflwyno'r Gymraeg i rieni, Cymorth Cyntaf, Technoleg a mwy! Diolch yn fawr i bawb wnaeth fynychu a chefnogi'r sesiynau. Mawr obeithiwn y gallwn gynnal rhagor o sesiynau yn y dyfodol!

24.04.23 Siarad Rybish!

Rydym yn gyffrous i weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Calon Taf ym Mharc Coffa Ynysangharad, Pontypridd a Cadw Cymru'n daclus ar brosiect newydd. Rydym yn gobeithio sefydlu grŵp codi sbwriel misol sy'n rhoi'r cyfle i bobl gymdeithasu, ymarfer eu Cymraeg a dysgu geirfa newydd wrth wella'r amgylchfyd! Mae croeso mawr i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl. Byddwn ni'n cwrdd am 10yb tu fas i Ganolfan Calon Taf ger y Bandstand yn y parc ar y 24ain o Ebrill. Am ragor o fanylion, e-bostiwch gweithgareddau@menteriaith.cymru

Parti Ponty 2023

Rydym yn edrych ymlaen at Parti Ponty! Bydd Parti Ponty yn cael ei gynnal ym Mharc Coffa Ynysangharad ar ddydd Sadwrn, y 13eg o Fai eleni gyda cherddoriaeth byw, gweithgareddau i'r teulu, chwaraeon, bwyd a diod a mwy!

Mae Parti Pwll Ponty yn dychwelyd eto hefyd ar nos Wener, 12fed o Fai gyda noson arbennig yn Lido Ponty! Bydd TARA BANDITO yn perfformio wrth ochr y pwll mewn perfformiad byw arbennig i chi!

Mae yma dri phwll nofio – prif bwll, pwll gweithgareddau a phwll sblash. Heb os, mae Lido Ponty yn cynnig cyfleoedd nofio gwych i bawb o bob oed a gallu. Cewch glywed Tara Bandito yn canu a dawnsio eu ffordd i'ch clustiau tra'n mwynhau holl gyfleusterau'r pwll!

Ar y nos Sadwrn bydd Gig Nos gyda Cleif Harpwood a Geraint Cynan a'r band Catsgam yng Nghlwb y Bont hefyd!

Mae tocynnau am y ddau ddigwyddiad ar gael nawr trwy Eventbrite. Mynnwch eich tocynnau nawr!
https://www.eventbrite.co.uk/e/parti-pwll-ponty-2023-tickets-601483612677
https://www.eventbrite.co.uk/e/gig-nos-parti-ponty-tickets-600398647517

Gwirfoddoli

Os oes diddordeb gyda chi wirfoddoli ym Mharti Ponty eleni cysylltwch â **gweithgareddau@menteriaith.cymru**.

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**

Tanysgrifiwch i'n rhestr e-bost: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe
Facebook: @MenterIaithRhCT
Twitter: @MenterIaithRhCT
Instagram: @menteriaithrhct
Gwefan: www.menteriaith.cymru
E-bost: post@menteriaith.cymru
Ffôn: 01443 407570